



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

50/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

12/11/2019

Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion

Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion

Awduron: Brett Duggan, Alison Glover and Tanwen Grover,
Arad Research, ac Annalisa Feehan.

Adroddiad ymchwil llawn: Duggan, B., Glover, A., Grover, T. Feehan, A. (2019).
Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion. Caerdydd:
Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 50/2019
Ar gael yma: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-clwstwr-cyflenwi-mewn-ysgolion>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd
yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Katy Marrin

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm ymchwil ddiolch i'r holl athrawon ychwanegol, y penaethiaid, yr uwch-reolwyr ysgol a'r rhanddeiliaid a oedd wedi cymryd rhan yn y cyfweiliadau a'r arolwg. Yn ogystal, hoffai'r awduron ddiolch i,

- Swyddogion Llywodraeth Cymru, Gail Deane, Lucy Durston (Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus), a Katy Marrin (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) am eu harweiniad a'u cymorth.
- Mabon ap Gwyn o Arad, a fu'n cydlynu'r gwaith maes ac yn cynorthwyo wrth gyflwyno canlyniadau'r arolwg

Cynnwys

Rhestr tablau	2
Rhestr ffigyrau	2
Geirfa	4
1. Cyflwyniad	6
2. Methodoleg	9
3. Cyd-destun y prosiect.....	13
Cyd-destun polisi.....	13
4. Rheoli a gweithredu.....	18
Ymgysylltu a recriwtio.....	18
Modelau gweithredu a fabwysiadwyd gan y clystyrau	21
Monitro a gwerthuso	28
5. Canlyniadau'r prosiect.....	30
Addysgu a dysgu	30
Gwelliant ehangach mewn ysgolion	35
Cydweithio o fewn clystyrau	40
Athrawon ychwanegol	45
Arbedion effeithlonrwydd a manteision ariannol	53
6. Cynaliadwyedd	58
7. Casgliadau a materion i'w hystyried yn y dyfodol	63
Atodiad A: Offerynnau ymchwil	73
Atodiad B: Crynodeb o ymatebion i arolwg ysgolion clwstwr (Gwanwyn 2019)	92
Atodiad C: Astudiaethau achos o glystyrau'r peilot	103

Rhestr tablau

Tabl 2.1: Clystyrau ysgolion y peilot a chyfweliadau a gwblhawyd.	12
Tabl 4.1: Cryfderau a sialensiau y gwahanol fodelau gweithredu	27
Tabl 5.1. Trosolwg o'r gymhariaeth rhwng y costau o ddarparu gwasanaeth cyflenwi.....	55
Tabl 7.1. Enghreifftiau o gymorth ymyrraeth graddedig posibl	70

Rhestr ffigurau

Ffigwr 4.1: Llinell amser gweithgarwch ymgysylltu y clystyrau gyda'r Prosiect	19
Ffigwr 4.2: Strwythur pob clwstwr o fewn y peilot.....	22
Ffigwr 4.3: Enghraifft o amserlen bloc.....	24
Ffigwr 4.4: Enghraifft o amserlen sefydlog	25
Ffigwr 4.5: Enghraifft o amserlen hyblyg	26
Ffigwr 4.6: Enghraifft o amserlen gyfunol.....	26

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
AG	Addysg Gorfforol
ANG	Athro Newydd Gymhwyso
Arweinydd clwstwr	Pennaeth neu uwch-reolwr mewn ysgol sy'n gyfrifol am gydlynw gweithgarwch y Prosiect ar draws clwstwr.
ASD	Anhwylder yn y Sbectwm Awtistig
Athro ychwanegol	Athro fel y bo'r angen a gyflogir gan un ysgol neu glwstwr o ysgolion i ddarparu gwasanaeth cyflenwi pan fydd athrawon yn absennol.
CALU	Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch
CDY	Cynllun Datblygu Ysgol
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sefydliad sy'n cynrychioli buddiannau a safbwyntiau llywodraeth leol yng Nghymru.
CPA	(Amser) cynllunio, paratoi ac asesu
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
EAL	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
Estyn	Arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru sy'n darparu cyngor ac arolygiadau annibynnol ynghylch ansawdd a safon yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru.
EWC	Cyngor y Gweithlu Addysg, y rheolydd annibynnol yng Nghymru ar gyfer athrawon mewn ysgolion a gynhelir, athrawon Addysg Bellach a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau AB, yn ogystal â Gweithwyr leuenctid a phobl sy'n gysylltiedig â dysgu seiliedig ar waith.
LSA	Cynorthwydd Cymorth Dysgu
SAC	Statws Athro Cymwysedig
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Gorffennaf 2018, comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion (y Prosiect). Roedd y Prosiect wedi darparu £2.7 miliwn ar ffurf cyllid grant am ddwy flynedd i 18 o brosiectau peilot clwstwr mewn ysgolion mewn 15 awdurdod lleol, er mwyn treialu dulliau gweithredu i gyflogi athrawon a oedd wedi cymhwyso yn ddiweddar dan drefniant clwstwr i reoli gwasanaeth cyflenwi ar gyfer absenoldebau (wedi ei gynllunio neu heb ei gynllunio).
- 1.2 Pennwyd ysgol arweiniol y clwstwr gan bob prosiect peilot clwstwr, lle'r oedd y pennaeth neu uwch-reolwr yn gyfrifol am gydlynw gweithgarwch y prosiect ar draws y clwstwr; gan gyflawni rôl y prif bwynt cyswllt gyda Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol, ac fel cyflogwr yr athro/athrawon ychwanegol. Bu cant a thair o ysgolion yn ymwneud â'r Prosiect, ac roedd 50 o rolau athrawon ychwanegol ar gael; llwyddwyd i lenwi 47 o'r swyddi hyn. Yn ystod y peilot, mae rhai ysgolion wedi uno ac mewn rhai achosion, roedd angen recriwtio rhagor o athrawon gan bod athrawon ychwanegol wedi sicrhau swyddi parhaol cyn diwedd y Prosiect.
- 1.3 Bwriad y Prosiect oedd cynorthwyo capasiti o fewn y gweithlu trwy gyflogi athrawon a oedd newydd gymhwyso yn ddiweddar i'r swyddi a hysbysebwyd gan glystyrau. Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn gyfrifol am gynnal trefniadau staffio effeithiol mewn ysgolion ac am wneud penderfyniadau ynghylch cyllidebau staffio dirprwyedig, ac roedd y Prosiect peilot hwn yn cefnogi'r dull gweithredu hwn. Graddiwyd y cymorth ariannol a roddwyd i glystyrau yn ystod cyfnod y prosiect: yn ystod Blwyddyn 1 (o fis Medi 2017), rhoddwyd cyllid ar ffurf grant i glystyrau a fyddai'n talu 100 y cant o gostau'r prosiect; yn ystod Blwyddyn 2 (o fis Medi 2018), rhoddwyd cyllid ar ffurf grant i glystyrau am 75 y cant o'r costau. Er nad oedd cyllid ar ffurf grant ar gael i glystyrau yn ystod y drydedd flwyddyn, y bwriad oedd y byddai'r trefniadau yn gynaliadwy, ac y byddai ysgolion yn parhau i gyflogi athrawon clwstwr dan drefniant hunan-gyllidol ar lefel awdurdod lleol neu glwstwr ysgolion o fis Medi 2019.
- 1.4 Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd gweithredu'r Prosiect o fis Medi 2017, penderfynwyd oedi'r dyddiad cychwyn nes ar ôl dechrau'r flwyddyn academiaidd, yn

hwyrach na mis Medi 2017, fel na fyddai'r Prosiect yn tarfu mewn unrhyw ffordd ar y farchnad swyddi arferol a'r cyfleoedd gwaith i athrawon sydd newydd gymhwyso'n ddiweddar wrth sicrhau swyddi parhaol.

1.5 Nodau'r gwerthusiad hwn oedd:

- Adolygu gweithrediad a chyflawniad y Prosiect;
- Asesu a chynnig cyngor ynghylch gweithgarwch monitro ac adrodd y prosiect;
- Asesu sut y mae'r prosiectau wedi cyfrannu at ganlyniadau bras y Prosiect a'u hamcanion eu hunain; a
- Gwneud argymhellion ynghylch modelau gweithredu gwasanaeth cyflenwi yng Nghymru yn y dyfodol, ac a ddylid ymestyn/ annog model cyflogaeth uniongyrchol ar y cyd.

1.6 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o adroddiadau¹ wedi archwilio materion yn ymwneud â defnyddio a rheoli athrawon cyflenwi a'r effaith ar ddeilliannau dysgwyr. Ym mis Mai 2015, gan ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch addysgu cyflenwi², sefydlwyd Tasglu Model Cyflenwi i ystyried y dewisiadau ar gyfer y dyfodol wrth gomisiynu athrawon cyflenwi yng Nghymru. O fis Medi 2019, bydd Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer Athrawon Cyflenwi yng Nghymru yn weithredol, ac anogir ysgolion i ddefnyddio asiantaethau sy'n cydymffurfio â'r fframwaith, sy'n cynnwys isafswm o ran y tâl ar gyfer athrawon cyflenwi.³

1.7 Gofynnwyd i'r Tasglu adolygu modelau gweithredu cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer y gweithlu cyflenwi, gan ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn cymryd tystiolaeth, gyda'r nod o argymhell dewisiadau cyflawni amgen ar gyfer y dyfodol. Adroddodd y Tasglu ym mis Chwefror 2017, gan gyflwyno argymhellion.⁴ Roedd sawl un o'r argymhellion yn ffafrio rhoi mwy o gymorth i athrawon sydd

¹ Estyn (2013) [Effaith absenoldeb athrawon](#); Swyddfa Archwilio Cymru (2013) [Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb](#); Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) [Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon](#)

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) [Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi](#)

³ Llywodraeth Cymru (2019) [Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer Athrawon Cyflenwi yng Nghymru](#)

⁴ Tasglu Model Cyflenwi Gweinidogol (2017) [Adroddiad i'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg](#)

newydd gymhwyso yn ddiweddar ac y maent yn cyflawni rolau cyflenwi tymor byr, a chyflwyno dull gweithredu ar y cyd tuag at gyflawni. Datblygwyd y Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion er mwyn ymateb i'r argymhellion hyn.

1.8 Rhoddodd y gwerthusiad sylw i'r cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Pa wahanol fodelau gweithredu ar gyfer cyflenwi a ddatblygwyd?
2. A yw systemau monitro prosiect yn briodol er mwyn asesu cynnydd a chanlyniadau prosiectau?
3. Sut ellir asesu arbedion ariannol ac arbedion effeithlonrwydd y Prosiect?
4. Pa rwystrau a hwyluswyr ar gyfer cydweithio a brofwyd gan glystyrau?
5. I ba raddau y mae clystyrau wedi cyflawni yn erbyn canlyniadau bras y Prosiect?
6. I ba raddau y mae clystyrau wedi cyflawni eu hamcanion eu hunain?
7. I ba raddau y mae clystyrau wedi cyfrannu at weithgareddau gwella ysgolion?
8. A yw clystyrau yn hunangynhaliol ym mlwyddyn tri (2019/20)?
9. A ddylai a sut allai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gynorthwyo mentrau o'r fath yn y dyfodol?

1.9 Mae natur y Prosiect fel peilot yn cynnig cyfle arbennig i ddysgu o ran diwygiadau i'r system addysg bresennol yng Nghymru ac o ran yr ysgogiad i gydweithio ar lefel ranbarthol wrth i ysgolion ystyried ffyrdd amgen o fodloni anghenion cyflenwi allai fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae'r gwerthusiad annibynnol hwn yn cynnig asesiad o gynllun, gweithrediad a chanlyniadau'r Prosiect a'i nod yw darparu dysgu ar gyfer polisïau ac arfer yn y maes hwn yn y dyfodol.

1.10 Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r gweithgarwch ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2018 a mis Gorffennaf 2019, ac mae'n canolbwyntio ar weithrediad ac effaith y Prosiect yn ystod blynyddoedd 1 a 2. Cyhoeddir adroddiad dilynol byr ym mis Medi 2020, a fydd yn ffrwyth gweithgarwch arolygu arweinwyr clwstwr ac athrawon ychwanegol, gan ystyried effaith y Prosiect dros y tymor hwy, adrodd am unrhyw newidiadau o ran y ffordd y mae ysgolion yn rhoi sylw i'w hanghenion cyflenwi ac effaith rôl yr athro ychwanegol ar brofiad cyflogaeth athrawon. Yn ogystal, bydd yr adroddiad dilynol yn cynnwys dadansoddiad terfynol o ba mor gost-

effeithiol y bu'r peilot, gan nad oedd y data monitro terfynol gan y clystyrau ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn.

2. Methodoleg

- 2.1 Mabwysiadwyd methodoleg dulliau cymysg ar gyfer y gwerthusiad, a chynigiwyd cyfleoedd i'r holl glystyrau a'r prif randdeiliaid gyfrannu ar adegau amrywiol yn ystod y gwerthusiad. Roedd y gwerthusiad yn manteisio ar ddata gan ffynonellau amrywiol, gan gynnwys data monitro, data meintiol a data ansoddol cynradd, a oedd yn cynnig cyfle i wneud gwaith dadansoddi dyfnach a chadarnhau canfyddiadau. Yn ystod cyfnod cwmpasu y gwerthusiad, archwiliwyd holl ddogfennaeth y prosiect megis gwybodaeth am gefndir y prosiect a cheisiadau clystyrau am y cyllid ar ffurf grant. Wrth i'r Prosiect symud yn ei flaen, cyflwynodd pob clwstwr ffurflenni monitro tymhorol, a oedd yn cynnwys data ynghylch nifer yr athrawon ychwanegol a gyflogwyd, cyfanswm y diwrnodau absenoldeb yr oedd gofyn darparu gwasanaeth cyflenwi ar eu cyfer yn y clwstwr, cost gwasanaeth cyflenwi gan asiantaeth a nifer y diwrnodau y bu'r athrawon ychwanegol yn gweithio. Roedd adroddiadau diwedd blwyddyn yn rhoi crynodeb o ddarpariaeth y Prosiect ym mhob clwstwr, gan adrodd am yr effaith; a rhannwyd y rhain hefyd gyda'r tîm ymchwil. Casglwyd data cynradd yn ystod cyfweiliadau, lle'r oedd persbectifau uwch-reolwyr, athrawon ychwanegol a rhanddeiliaid perthnasol eraill wedi rhoi dirnadaeth o gynllun, gweithgarwch cynllunio a chyflawniad y Prosiect. Mae Tabl 2.1 yn darparu trosolwg o'r holl gyfranwyr a sut y casglwyd y wybodaeth. Rhoddir mwy o fanylion am y camau casglu data amrywiol isod.
- 2.2 Yn ystod cam cyntaf y gwerthusiad, cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid, a fu'n canolbwyntio ar gyd-destun polisi a chefnidir y Prosiect, ei nodau, ei gynllun a'i weithgarwch cyflawni hyd yn hyn. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (3), Estyn (1), Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) (2), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) (1) ar ddechrau'r gwerthusiad, a gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol (3), penaethiaid a dirprwy benaethiaid eraill (8), mentoriaid Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) (2) a dysgwyr (4) yn nes ymlaen yn ystod y broses werthuso. Rhoddwyd cyfle i'r holl rai a gyfwelwyd ac yr estynnwyd gwahoddiad iddynt gymryd rhan yn y gwerthusiad, i

gymryd rhan yn eu dewis iaith, a chynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Defnyddiwyd canlyniadau'r cyfweiliadau cwmpasu er mwyn cyfrannu at gynllun a chyflawniad parhaus y gwerthusiad, gan ddarparu cyd-destun pellach i'r Prosiect a nodi cwestiynau atodol i'w gofyn yn ystod gwaith maes gydag arweinwyr clwstwr, athrawon ychwanegol ac ysgolion eraill sy'n cymryd rhan.

- 2.3 Defnyddiwyd y ffurflenni monitro a gyflwynwyd gan glystyrau i bennu cost-effeithiolrwydd y Prosiect. Defnyddiwyd cyfanswm y diwrnodau cyflenwi a oedd yn angenrheidiol a chost y gwasanaeth cyflenwi hwn a ddarparwyd gan asiantaethau, ynghyd â nifer y diwrnodau y bu'r athro/athrawon ychwanegol yn gweithio, i gyfrifo cyfanswm y gwariant ar gyflenwi pe bai'r gwasanaeth cyflenwi a ddarparwyd gan yr athrawon ychwanegol wedi cael ei ddarparu gan asiantaethau cyflenwi. Yn ogystal, cyfrifwyd y gost gyflenwi ddyddiol gyfartalog ar gyfer y gwasanaeth cyflenwi gan asiantaeth a ddefnyddiwyd gan y clystyrau (Adran 5).
- 2.4 Un o brif nodau'r gwerthusiad oedd sicrhau lefelau ymgysylltu da gyda chlystyrau a fu'n cymryd rhan, a deall eu profiadau nhw o'r Prosiect ar wahanol adegau. Estynnwyd gwahoddiad i arweinwyr clystyrau gymryd rhan mewn cyfweiliadau yn ystod yr hydref 2018 a chwblhawyd cyfweiliadau gyda'r 18 arweinydd clwstwr. Bu'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar y gwaith o gyflawni'r prosiect hyd yn hyn, sut y defnyddir athrawon ychwanegol, cydweithio gydag ysgolion clwstwr, cymorth ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon ychwanegol, ac unrhyw rwystrau neu sialensiau a wynebwyd. Cynhaliwyd cyfweiliadau pellach yn ystod yr haf 2019 gydag 17 o'r 18 o arweinwyr clwstwr: bu'r cyfweiliadau hyn yn canolbwyntio ar reolaeth y prosiect yn ystod cyfnod y Prosiect, a'i effaith ar ddysgwyr, ar athrawon ychwanegol, ar staff ehangach yr ysgol a'i gyfraniad i flaenoriaethau ysgol ehangach. Defnyddiwyd wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfweiliadau hyn yn ystod yr haf 2019 i gyfrannu at adroddiadau diwedd blwyddyn 2 pob clwstwr.
- 2.5 Cwblhawyd cyfweiliadau dros y ffôn gyda 25 o athrawon ychwanegol ar draws 15 clwstwr. Roedd y cyfweiliadau hyn wedi cynnig dirnadaeth o gymhelliant athrawon dros ymgeisio, prosesau recriwtio, modelau lleoli athrawon, rheolaeth, datblygiad proffesiynol, profiad o weithio ar draws gwahanol ysgolion a chyfnodau allweddol, manteision a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Sicrhaodd y tîm ymchwil ganiatâd i ail-

gysylltu â'r athrawon ychwanegol dros y ffôn neu mewn neges e-bost am gyfweiliadau dilynol yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20 er mwyn cofnodi a ydynt yn addysgu neu ble y maent yn addysgu ar ôl y Prosiect.

- 2.6 Yn ogystal, cynlluniwyd arolwg ar-lein i gasglu safbwyntiau ysgolion eraill a fu'n ymwneud â'r Prosiect. Bu'r arolwg yn archwilio materion tebyg i'r rhai a drafodwyd gydag arweinwyr clwstwr. Ymatebodd 34 o blith 85 ysgol (heb gynnwys arweinwyr clwstwr nas estynnwyd gwahoddiad iddynt gwblhau'r arolwg). Pan fo hynny'n briodol, caiff dolenni i ganfyddiadau'r arolwg eu cynnwys yn naratif yr adroddiad hwn, y cyfeirir atynt fel data ategol gan benaethiaid/ysgolion clwstwr eraill.
- 2.7 Mae Tabl 2.1 yn darparu dadansoddiad o niferoedd yr unigolion a gyfrannodd at gamau amrywiol y gwerthusiad a amlinellwyd uchod. Mae Atodiad A yn cynnwys yr holl amserlenni cyfweld a chyflwynir crynodeb o ganlyniadau'r arolwg ar-lein yn Atodiad B. Yn ogystal, datblygwyd astudiaethau achos er mwyn cyflwyno manylion pellach am themâu penodol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwerthusiad, megis rheoli clwstwr mawr o ysgolion, recriwtio a defnyddio gwasanaeth cyflenwi arbenigol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion Arbennig. O ganlyniad, mae'r astudiaethau achos yn adlewyrchu profiad y Prosiect ar draws gwahanol rannau o Gymru ac mewn gwahanol fathau o ysgolion. Casglwyd gwybodaeth ar gyfer yr astudiaethau achos hyn yn ystod ymweliadau hanner diwrnod ag ysgol arweiniol y clwstwr ac yn ystod cyfweiliadau dros y ffôn. Cyfrannodd arweinwyr clwstwr, penaeithiaid eraill a rhanddeiliaid perthnasol eraill megis mentoriaid SAC a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, at ddatblygiad yr astudiaethau achos. Mae Atodiad C yn cynnwys yr astudiaethau achos llawn, y cyfeirir atynt hefyd trwy gydol yr adroddiad pan fo hynny'n berthnasol.

Tabl 2.1: Clystyrau ysgolion y peilot a chyfweliadau a gwblhawyd.

Clwstwr	Nifer ysgolion yn y clwstwr	Nifer y rolau AY*	Cyfweliadau a gwblhawyd				Arolwg
			Arweinwyr clwstwr		AY*	Rhan- ddeiliaid eraill **	Ysgolion clwstwr Gwanwyn 2019
			Hydref 2018	Haf 2019	Gwanwyn 2019		
Blaenau Gwent A	5	4	1	1	1		
Blaenau Gwent A	6	2	1	1	2		
Blaenau Gwent B	7	1	1	1	2	1	4
Caerffili	10	10	1	1	4	3	3
Caerdydd	7	3	1	1			2
Caerfyrddin	6	4	1	1			4
Conwy A	6	3	1	1	3		3
Conwy B	7	1	1	1	1		2
Merthyr Tudful A	7	1	1	1	1		
Merthyr Tudful B	1	1	1	1	1		
Sir Fynwy	10	5	1	1	2	1	5
Castell-nedd Port Talbot	2	1	1	1	1	3	1
Casnewydd	3	3	1		2		
Sir Benfro	6	1	1	1	1		4
Powys	2	2	1	1	1		1
Rhondda Cynon Taf	4	2	1	1	1		2
Torfaen	6	1	1	1		1	
Bro Morgannwg	8	2	1	1	2	8	3
Wrecsam	103	47	18	17	25	17	34

Sylwer: Unodd rhai o'r ysgolion clwstwr yn ystod cyfnod y Prosiect; ni enwyd ysgolion unigol oherwydd mai dim ond enwau'r awdurdodau lleol a fu'n cymryd rhan yn y Prosiect peilot a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

* AY – athrawon ychwanegol

**yn cynnwys mentoriaid ANG, penaethiaid, swyddogion addysg awdurdodau lleol a dysgwyr.

3. Cyd-destun y prosiect

Cyd-destun polisi

- 3.1 Ym mis Medi 2017, nododd Llywodraeth Cymru yn ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Addysg yng Nghymru bod 'Addysg yn bwysicach nag erioed. Diwygio addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol'.⁵ Mae cryfhau'r ddarpariaeth hyfforddi athrawon, safonau proffesiynol newydd i athrawon,⁶ Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol⁷ a gweithredu Dyfodol Llwyddiannus⁸ gyda datblygiad y cwricwlwm newydd i Gymru⁹, yn cynnig sylfaen ar gyfer y gweithgarwch hwn i ddiwygio addysg yng Nghymru. Mae sefydlu systemau cynllunio gweithlu mwy effeithiol yn amcan allweddol i'w gyflawni erbyn 2021, ac mae hyn yn cynnwys datblygu 'modelau amgen er mwyn sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi i ysgolion'.¹⁰
- 3.2 Yn ogystal, mae cydweithio rhwng ysgolion yn allweddol er mwyn symud dysgu proffesiynol i athrawon¹¹ yn ei flaen, a bod ysgolion yn datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu¹² ac mae'r Prosiect peilot hwn yn cyfrannu at gynnydd pellach yn y meysydd hyn. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl arferion cyflogaeth yn gyfreithlon ac yn foesegol¹³, a chaiff y broses o gyflwyno Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer Athrawon Cyflenwi yng Nghymru¹⁴ ei diwygio ar sail lotiau daearyddol, a bydd yn weithredol o fis Medi 2019. Mae'r Fframwaith hwn yn cynnwys isafbwynt o ran y tâl, tryloywder o ran ffioedd a gwaredu arferion gwaith penodol, a bydd gofyn cael cymorth ar gyfer ymsefydlu a dysgu proffesiynol, a bydd yn rhoi 'mwy o ddewis a hyblygrwydd i ysgolion o ran pa

⁵Llywodraeth Cymru (2017) [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl Cynllun Gweithredu 2017-21](#). t. 2.

⁶Llywodraeth Cymru (2019) [Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth](#).

⁷Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

⁸Donaldson, G. (2015) [Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru](#)

⁹Llywodraeth Cymru (2019) [Cwricwlwm i Gymru 2022](#)

¹⁰Llywodraeth Cymru (2017) [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl Cynllun Gweithredu 2017-21](#). t. 4.

¹¹Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (2018) [Y Dull Cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol yng Nghymru: Y dystiolaeth](#)

¹²OECD (2018) [Datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yng Nghymru: prif bwyntiau](#)

¹³Llywodraeth Cymru (2016) [Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi; Cod Ymarfer](#)

¹⁴Llywodraeth Cymru (2019) [Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer Athrawon Cyflenwi yng Nghymru](#)

asiantaethau cyflenwi i weithio gyda nhw'.¹⁵ Mae saith asiantaeth ar hugain yn rhan o'r Fframwaith hwn ac anogir ysgolion i'w ddefnyddio er mwyn trefnu athrawon cyflenwi.

- 3.3 Amlygwyd sawl her ynghylch rheoli athrawon cyflenwi a'r effaith ar ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r adroddiadau cydweithredol rhwng Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi effaith negyddol gorfod trefnu athrawon cyflenwi ar gynnydd ac ymddygiad dysgwyr, a'r anawsterau y bydd athrawon cyflenwi yn eu hwynebu wrth feithrin perthnasoedd gwaith effeithiol gyda dysgwyr. Yn ogystal, adroddwyd am yr anhawster y mae ysgolion yn ei wynebu wrth geisio sicrhau athrawon cyflenwi sy'n siarad Cymraeg, y rhai sy'n gallu cyflawni rolau mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd difreintiedig yn economaidd, neu'r rhai sy'n gallu addysgu pynciau lle y gwelir prinder athrawon megis mathemateg a ffiseg.¹⁶ Nodwyd hefyd bod diffyg datblygiad proffesiynol priodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi, ac mae hyn yn rhwystro athrawon rhag sicrhau swyddi parhaol.¹⁷
- 3.4 Ym mis Mai 2015, sefydlwyd Tasglu Model Cyflenwi i ystyried dewisiadau cyflawni yn y dyfodol ynghylch comisiynu athrawon cyflenwi yng Nghymru. Canfu'r Tasglu bod y ddarpariaeth yn aml yn amrywiol ac yn anghyson; ac y telir gwahanol gyfraddau talu i athrawon cyflenwi a'u bod yn rhwym i wahanol amodau a thelerau, gan ddibynnu sut y cânt eu cyflogi. Nid oedd y rhain wastad yn cyd-fynd ag amodau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon¹⁸ y cytunwyd arni yn genedlaethol, neu'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad sydd gan athrawon cyflenwi. Efallai nad yw athrawon sy'n cyflenwi dros y tymor byr yn gallu manteisio ar gyfleoedd datblygu proffesiynol a dysgu yn yr un modd â'r rhai sydd ar gontractau cyflenwi dros y tymor hwy, ac efallai y bydd problemau cadw staff mewn perthynas ag Athrawon Newydd Gymhwyso a gyflogir fel athrawon cyflenwi. O ystyried bod un o bob deg o'r gweithlu addysgu yng Nghymru yn gweithio fel athrawon cyflenwi, a bod un o bob tri o'r rhain wedi bod yn y proffesiwn ers llai na phum mlynedd, a bod ychydig dros un

¹⁵Llywodraeth Cymru (2019) [Canllawiau Athrawon cyflenwi](#)

¹⁶Estyn (2013) [Effaith absenoldeb athrawon](#). t. 3-4.

¹⁷Estyn (2013) [Effaith absenoldeb athrawon](#). t. 5.

¹⁸Adran Addysg Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol (2018) [Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2018 a Chanllawiau ar Gyflog ac Amodau Athrawon](#)

o bob pump o'r rhain heb gwblhau eu blwyddyn sefydlu,¹⁹ roedd y Prosiect peilot yn cynnig cyfle i gynorthwyo Athrawon Newydd Gymhwyso i gwblhau eu gofyniad blwyddyn sefydlu a darparu datblygiad proffesiynol parhaus.

- 3.5 Gwnaethpwyd nifer o argymhellion yn adroddiad y Tasglu yng ngoleuni'r materion a amlygwyd uchod, gan gynnwys un a oedd yn ymwneud â datblygu a threialu model cydweithredol rhanbarthol er mwyn darparu gwasanaeth athrawon cyflenwi. Barnwyd bod gan ddull gweithredu o'r fath y potensial i roi sylw i rai o'r materion penodol a wynebwr mewn sawl ardal, trwy ddefnyddio athrawon cyflenwi a gymhwysodd yn ddiweddar mewn clystyrau o ysgolion er mwyn bodloni'r galw am wasanaeth cyflenwi pan geir absenoldebau (wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio), yn aml ar fyr rybudd.
- 3.6 Yn ogystal, ceir datblygiadau polisi ehangach yng Nghymru hefyd sy'n cyd-fynd â'r Prosiect peilot hwn. Trosglwyddwyd y pwerau i bennu Cyflog ac Amodau Athrawon i Weinidogion Cymru yn ffurfiol ym mis Medi 2018. Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg godiad i gyflog athrawon newydd gymhwyso o fis Medi 2019, yn ogystal â chodiad i'r holl athrawon ysgol eraill hefyd.²⁰ Roedd hyn yn dilyn argymhellion a wnaethpwyd gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru a oedd yn ceisio codi statws y proffesiwn a chynorthwyo'r gwaith o recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr o ansawdd uchel.²¹
- 3.7 Blaenoriaeth arall i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw gwaith y Grŵp Rheoli Llwyth Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth, sy'n ystyried rheoli lles a llwyth gwaith y gweithlu²². Blaenoriaethau'r Grŵp hwn yw datblygu pecyn cymorth llwyth gwaith a lles ar gyfer gweithlu ysgolion, hyrwyddo adnoddau lleihau llwyth gwaith, datblygu modelau hyfforddiant ac astudiaethau achos enghreifftiol a chynnal archwiliad ar draws y sector.

¹⁹ Cyngor y Gweithlu Addysg (2016) *Dadansoddiad o athrawon cyflenwi cofrestredig*. t. 2-5.

²⁰ [Cyhoeddiad y bydd athrawon yn cael codiad cyflog wrth i gyflogau athrawon gael eu datganoli i Gymru am y tro cyntaf – Gorffennaf 2019](#)

²¹ [Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, Adroddiad Cyntaf – 2019](#)

²² [Datganiad i'r Cyfarfod Llawn 11 Mehefin 2019](#)

- 3.8 Ym mis Mai 2019, cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, *Gwaith Teg Cymru*. Gwnaeth yr adroddiad sawl argymhelliad ynghylch rôl Llywodraeth Cymru yn agenda gwaith teg²³. Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Cyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg i fwrw ymlaen gyda gwaith teg yng Nghymru.
- 3.9 Mae'r Prosiect peilot hwn yn adlewyrchu uchelgais y datblygiadau polisi uchod, gan weithio i sicrhau bod y gweithlu addysg (gan gynnwys athrawon cyflenwi) yn cael cyfleoedd i wneud gwaith teg, lles effeithiol a chymorth gyda llwyth gwaith, a bod safon ofynnol ar gyfer dysgu proffesiynol yn cael ei darparu ar gyfer athrawon cyflenwi.

Amcanion y prosiect

- 3.10 Nododd Llywodraeth Cymru ganlyniadau eang sy'n ymwneud â'r graddau y mae'r Prosiect peilot:
- Yn gweithredu trefniadau amgen ac arloesol sy'n rhoi sylw i gyflenwi yn ystod absenoldebau mewn ysgolion (absenoldebau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio);
 - Yn cynorthwyo Athrawon Newydd Gymhwysu sy'n cyflawni rolau cyflenwi yn y tymor byr, o ran eu datblygiad proffesiynol a'u cadw;
 - Yn cynorthwyo arbedion effeithlonrwydd, gan ddangos tystiolaeth o werth ychwanegol ac arbedion posibl o ran y costau;
 - Yn hyrwyddo arfer gorau ym maes cydweithio a chydweithredu ar draws clystyrau ysgolion.

Dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd er mwyn darparu gwasanaeth cyflenwi yn yr ysgolion clwstwr cyn y Prosiect

- 3.11 Roedd hi'n arfer cyffredin i ysgolion clwstwr ddefnyddio asiantaethau cyflenwi allanol i fodloni eu hanghenion cyflenwi. Mewn rhai achosion, roedd ysgolion clwstwr wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol gydag asiantaethau cyflenwi

²³[Datganiad i'r Cyfarfod Llawn 7 Mai 2019](#)

penodol i hwyluso'r broses. Yn ogystal, roedd yn gyffredin bod rhai ysgolion clwstwr yn defnyddio dewisiadau cyflenwi mewnol amrywiol i fodloni eu hanghenion cyflenwi. Yn arbennig, roedd ysgolion cynradd llai yn fwy tebygol o ddefnyddio trefniadau cyflenwi mewnol yn unig, gan nad oes gan yr ysgolion hyn gyllideb benodol ar gyfer cyflenwi allanol. Roedd dewisiadau cyflenwi mewnol cyffredin yn cynnwys defnyddio goruchwylwyr llanw a Chynorthwyyr Addysg Lefel Uwch (CALU). Roedd yswiriant ar gael i ysgolion clwstwr hefyd mewn amgylchiadau penodol (megis pan fyddai staff yn absennol am dros bum niwrnod) ac roedd un clwstwr wedi datblygu ei fecanwaith yswiriant mewnol ei hun. Er hyn, mae'n bwysig nodi bod polisïau yswiriant ysgolion yn amrywio. Mae'r arolwg a gwblhawyd gan ysgolion clwstwr eraill yn cynnig trosolwg o ddulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gan rai o'r ysgolion i ymateb i absenoldebau (gweler Atodiad B).

- 3.12 Cyn i'r Prosiect gychwyn, adroddodd ysgolion clwstwr eu bod yn wynebu nifer o sialensiau cyffredin yn ymwneud â chyflenwi, a'r un mwyaf nodedig oedd: costau cyflenwi a oedd yn codi, yn enwedig pan fo cyllidebau ysgolion dan bwysau; ansawdd is yr addysgu a ddarperir trwy gyfrwng y gwasanaeth cyflenwi; heriau wrth fanteisio ar wasanaeth cyflenwi arbenigol megis athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg neu athrawon cyflenwi sydd â phrofiad o gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol, (gweler Astudiaethau achos 2 a 4 am drafodaeth bellach am y mater hwn) a'r faich o dreulio amser ar reoli cyflenwi yn hytrach nag ar flaenoriaethau ysgol eraill.
- 3.13 Roedd nifer o glystyrau wedi llwyddo i ddatblygu trefniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth blaenorol (megis cydweithio ar bontio neu wella ysgol, neu swyddog presenoldeb a rannwyd), fodd bynnag, nid oedd y gwaith blaenorol hwn yn cynnwys dulliau gweithredu ar y cyd wrth ddelio â chyflenwi.

4. Rheoli a gweithredu

- 4.1 Mae'r adran hon yn trafod y gwaith o reoli a gweithredu'r Prosiect, gan gynnwys y gweithgarwch ymgysylltu cychwynnol a recriwtio; modelau darparu; a monitro a gwerthuso.


Ymgysylltu a recriwtio

Prif ganfyddiadau

- Hysbyswyd awdurdodau lleol o'r Prosiect ym mis Gorffennaf 2017.
- Targedwyd rhai ysgolion a oedd yn wynebu sialensiau penodol mewn perthynas â chyflenwi.
- Roedd hi wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i recriwtio athrawon ychwanegol i rai clystyrau.
- Nid oedd rhai clystyrau yn gallu manteisio ar y cyllid 100 y cant llawn ar gyfer y flwyddyn gyntaf lawn, o ganlyniad i'r ffaith y bu oedi cyn cychwyn.
- Bu gofyn ail-hysbysebu rhai swyddi clwstwr ar ôl i athrawon sicrhau swyddi parhaol yn ystod y Prosiect.

- 4.2 Rhoddir crynodeb o'r linell amser ynghylch cyhoeddi a gweithredu'r Prosiect yn Ffigwr 4.1. Estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i awdurdodau lleol fynegi diddordeb mewn cymryd rhan ym mis Gorffennaf 2017. Yn dilyn hyn, hysbyswyd clystyrau o'r Prosiect gan awdurdodau lleol, ac mewn rhai achosion, targedwyd ysgolion yr oeddent yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn wynebu sialensiau penodol ym maes cyflenwi (e.e. manteisio ar wasanaeth cyflenwi cyfrwng Cymraeg) neu nodwyd clystyrau y barnwyd eu bod mewn sefyllfa dda i ddarparu'r Prosiect. Fodd bynnag, oherwydd y bu'n rhaid oedi dyddiad cychwyn y Prosiect (gydag ysgolion yn gallu dechrau recriwtio yn yr hydref), roedd sawl mis ym mlwyddyn academiaidd 2017-18 wedi mynd heibio cyn i glystyrau gychwyn prosesau recriwtio. O ganlyniad, ni fu modd i rai clystyrau fanteisio ar y cyllid grant 100 y cant ar gyfer blwyddyn lawn gyntaf y Prosiect.

Ffigwr 4.1: Llinell amser gweithgarwch ymgysylltu y clystyrau gyda'r Prosiect



- 4.3 Cymerodd y gweithgarwch recriwtio fwy o amser na'r disgwyl i rai ysgolion clwstwr arweiniol, a bu'n rhaid ailadrodd rowndiau hysbysebu cyn penodi athrawon ychwanegol mewn rhai achosion. Adroddodd ysgolion eu bod wedi cael llai o geisiadau na'r disgwyl ar gyfer y swyddi clwstwr (ar sail profiad recriwtio blaenorol), ac roedd rhai yn priodoli hyn i amser y flwyddyn. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at oedi o ran y dyddiadau cychwyn. Adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol y byddai cyfnod rhagarweiniol hirach wedi bod o gymorth, yn ogystal â'r cyfle i recriwtio yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd.
- 4.4 Roedd lleiafrif o athrawon ychwanegol wedi sicrhau swyddi parhaol (naill ai yn y clwstwr neu mewn man arall) yn ystod y cyfnod peilot. Ym mhob achos, mae clystyrau wedi ail-hysbysebu ac nid ydynt wedi wynebu nifer o sialensiau wrth ddisodli'r athrawon clwstwr hyn. Er bod clystyrau'n adrodd bod ail-hysbysebu a recriwtio unigolion newydd i'r swydd hyn wedi amharu ar y gwaith o ddarparu'r prosiect, mae ysgolion yn cydnabod hefyd bod cynnig llwybr i swyddi addysgu amser llawn yn fesur o lwyddiant y Prosiect.
- 4.5 Amlinellodd pob clwstwr y canlyniadau yr oeddent yn disgwyl i'r Prosiect eu cyflawni, a nododd rhai clystyrau flaenoriaethau cenedlaethol/rhanbarthol y byddai'r Prosiect yn helpu i'w cynorthwyo, gan gynnwys:
- Datblygu Cwricwlwm i Gymru;²⁴
 - Cyfrannu at sefydlu system ysgolion sy'n hunan-wella;
 - Rhaglen trawsnewid ADY;²⁵
 - Cynnig cymorth i ddysgwyr Mwy Abl a Thalentog;
 - Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.
- 4.6 I glystyrau eraill, roedd y canlyniadau arfaethedig yn cynorthwyo blaenoriaethau ysgol neu ar draws y clwstwr, megis:
- Datblygu capasiti ar draws y clwstwr;
 - Arbed costau cyflenwi;

²⁴Llywodraeth Cymru (2019) [Cwricwlwm i Gymru 2022](#)

²⁵Llywodraeth Cymru (2017) [Rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol \(ADY\)](#)

- Parhad y ddarpariaeth trwy ddefnyddio athrawon ychwanegol;
- Deilliannau gwell i ddysgwyr – cynnydd, cyrhaeddiad, llythrennedd/rhifedd/digidol;
- Gwaith gwell rhwng ysgolion – cydweithio, rhannu arfer da;
- Addysgu o ansawdd gwell;
- Datblygiad proffesiynol gwell i athrawon cyflenwi;
- Blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY);
- Lles staff;
- Cynaliadwyedd.


Modelau gweithredu a fabwysiadwyd gan y clystyrau

Prif ganfyddiadau

- Roedd nifer yr ysgolion a'r athrawon ychwanegol ym mhob clwstwr yn amrywio o un i ddeg.
- Roedd clystyrau yn croesawu'r hyblygrwydd a'r ymreolaeth a oedd ganddynt i gynllunio a gweithredu'r Prosiect.
- Y gwahanol fodelau gweithredu a fabwysiadwyd gan glystyrau;
 - Amserlen floc (hanner tymor neu dymor cyfan ym mhob ysgol)
 - Amserlen wythnosol/bythefnosol sefydlog mewn sawl ysgol
 - Amserlen hyblyg yn unol â'r galw
 - Cyfuniad o hyblyg a sefydlog

4.7 Mabwysiadwyd amrediad o fodelau gweithredu gan glystyrau, a gwelwyd ystod o fathau o ysgolion sydd wedi cyflawni rôl arweinwyr clwstwr (h.y. arweiniwyd clystyrau gan ysgolion cynradd, uwchradd, canol ac arbennig). Fel y dangosir yn Nhabl 2.1, roedd cyfluniad a strwythur pob clwstwr yn amrywio hefyd. Roedd nifer yr ysgolion a'r athrawon ychwanegol ym mhob clwstwr yn amrywio o un i ddeg. Mae Ffigwr 4.2 yn cynnig trosolwg o strwythur pob clwstwr yn y peilot.

Ffigwr 4.2: Strwythur pob clwstwr o fewn y peilot



4.8 Rhoddodd Llywodraeth Cymru hyblygrwydd i glystyrau o ran eu dull gweithredu ar gyfer y Prosiect, nifer yr athrawon ychwanegol i'w cyflogi a nifer yr ysgolion y byddent yn creu'r clwstwr. Croesawyd yr ymreolaeth hon gan arweinwyr clwstwr a chan y penaethiaid eraill yn y clystyrau, ac roedd amrywiaeth y dulliau gweithredu a

fabwysiadwyd gan glystyrau yn adlewyrchu hyn. Penderfynwyd ar fodelau gweithredu pob clwstwr yn y peilot gan arweinwyr clwstwr a chan benaethiaid clwstwr eraill yn ystod y cam cynllunio. Roedd y prif benderfyniadau yn cynnwys:

- Pwy fyddai'n rheoli ac yn mentora'r athro/athrawon ychwanegol;
- Sut fyddai'r athro/athrawon ychwanegol yn cael eu rhannu rhwng yr ysgolion clwstwr (cyfran yr amser ym mhob ysgol a'r dull gweithredu wrth amserlennu e.e. blociau penodedig ym mhob amserlen wythnosol neu ysgol); a
- Pha fath o wasanaeth cyflenwi y byddai'r athro/athrawon cyflenwi yn ei ddarparu (e.e. salwch neu ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)).

4.9 Mabwysiadwyd amrediad o ddulliau gweithredu gan glystyrau ac ar ôl cael adborth gan athrawon ychwanegol ac ysgolion clwstwr, newidiodd rhai clystyrau eu dull gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn. Gellir nodi pedwar model gwahanol sy'n seiliedig ar y dull gweithredu amserlennu a ddefnyddiwyd gan glystyrau ar gyfer yr athrawon ychwanegol;

1. Amserlen floc, wedi'i seilio ar athrawon ychwanegol yn treulio hanner tymor neu dymor cyfan ym mhob ysgol yn y clwstwr
2. Amserlen wythnosol neu bythefnosol sefydlog mewn sawl ysgol yn y clwstwr
3. Defnydd hyblyg, a arweinir gan y galw o'r ysgolion clwstwr
4. Cyfuniad o ddulliau gweithredu sefydlog a hyblyg

4.10 Bloc – amserlen hanner tymor neu dymor cyfan. Roedd rhai o'r clystyrau'n dyrannu athro ychwanegol i bob un o'u hysgolion clwstwr am dymor, a bu'r athro yn addysgu yn yr ysgolion clwstwr llai am hanner tymor. Bu'r dull gweithredu hwn yn ddefnyddiol i un clwstwr (gweler Ffigwr 4.3), oherwydd y bu modd i'r athro ychwanegol arsylwi addysgu a rheoli ymddygiad yn yr ysgol fawr yn y clwstwr ar ddechrau'r broses, cyn treulio o leiaf hanner tymor ym mhob un o'r ysgolion clwstwr eraill. Dim ond ar y dechrau y defnyddiwyd y dull gweithredu hwn gan glwstwr arall; yn dilyn wythnos o amser paratoi, bu'r athro ychwanegol yn addysgu pob dosbarth Blwyddyn 7 am wythnos, gan ddefnyddio mwy o 'ddull gweithredu addysgu cynradd' i gynorthwyo dysgwyr wrth iddynt bontio i'r ysgol uwchradd. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol uwchradd wedi cael ei dyraniad llawn o oriau yr athro ychwanegol ar

ddechrau'r Prosiect. Fodd bynnag, gan bod y symud rhwng yr ysgolion clwstwr yn llai aml ar gyfer yr athro ychwanegol, bu rhannu arfer a chydweithio yn llai amlwg dros y tymor byr.

Ffigwr 4.3: Enghraifft o amserlen bloc

Clwstwr Powys	Dyraniad	Rheolaeth
 6 ysgol  1 athrawes	Pob un yn ysgol gynradd wledig/lled-wledig Dyrannwyd yr athrawes i bob ysgol yn y clwstwr am dymor llawn yr un, ond bu'r ddwy ysgol lai yn ei rhannu dros dymor. Treuliwyd y tymor cyntaf yn yr ysgol fwy, yn arsylwi addysgu a rheoli ymddygiad er mwyn 'datblygu rheolau sylfaenol am yr hyn sy'n dderbyniol', yna roedd modd trosglwyddo hyn i'r ysgolion eraill yn y clwstwr.	<i>Am ei chyfarfod staff cyntaf ym mhob ysgol, roeddem yn dymuno dysgu am yr hyn yr oedd wedi bod yn ei wneud, beth oedd hi wedi ei weld? A beth oedd yn gweithio'n dda yn ei barn hi? (Arweinydd y clwstwr)</i>

- 4.11 Amserlen wythnosol neu bythefnosol sefydlog. Roedd clystyrau yn y peilot oedd yn defnyddio amserlen sefydlog, yn neilltuo athrawon i ysgolion clwstwr am nifer gytunedig o ddiwrnodau bob wythnos neu bythefnos. Gallai rôl yr athro mewn ysgol amrywio; addysgu'r un dosbarth bob wythnos neu gyflenwi mewn rhai dosbarthiadau rheolaidd ac amser arall yn cael ei defnyddio yn ôl yr angen yn yr ysgol ar y pryd (e.e. cyflenwi yn ystod salwch, datblygiad proffesiynol staff). Roedd mabwysiadu'r ffurf hon yn caniatáu i glystyrau ryddhau staff o fewn amserlen reolaidd i weithio ar flaenoriaethau ar lefel ysgol neu ar gyfer amser CPA. Roedd y model hwn hefyd yn caniatáu i'r athrawon ychwanegol ddarparu prosiectau penodol i'r holl ysgolion yn y clwstwr yn rheolaidd e.e. prosiectau clwstwr yn canolbwyntio ar STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) neu AG (Addysg Grefyddol). Hyd yn oed pan oedd clystyrau'n mabwysiadu dull gweithredu mwy hyblyg yn seiliedig ar y galw, dewisodd rhai ysgolion clwstwr ofyn am yr athro ar yr un diwrnod bob wythnos (neu debyg), er mwyn eu helpu i gynnal momentwm a chysondeb wrth addysgu yn y dosbarth. Rhoddir enghraifft o'r dull gweithredu hwn yn Ffigwr 4.4.

Ffigwr 4.4: Enghraifft o amserlen sefydlog

Clwstwr Sir Gaerfyrddin	Dyraniad a rôl	Mantais y model
 7 ysgol  3 athro	Roedd gan bob athro amserlen reolaidd, ac roeddent yn addysgu mewn dwy neu dair ysgol bob wythnos. Darparwyd gwasanaeth cyflenwi ar gyfer dyletswyddau rheoli, HMS, prosiectau pontio, gweithio mewn triawdau ac absenoldeb salwch. Er enghraifft, bu un athro yn canolbwyntio ar AG, gan ddarparu sesiynau yn yr ysgolion cynradd ac yn trefnu digwyddiadau yn yr ysgol uwchradd.	<i>Heb y prosiect, byddai llawer yn llai o waith monitro a hunanwerthuso ysgol wedi digwydd; eleni, rydym wedi llwyddo i wneud mwy nag yr ydym yn ei wneud fel arfer. (Arweinydd clwstwr)</i>

- 4.12 Hyblyg yn ôl y galw gan yr ysgolion clwstwr. Model a ddefnyddiwyd yn llai aml gan glystyrau oedd y model hyblyg, a oedd yn caniatáu i ysgolion clwstwr archebu amser athrawon ychwanegol yn ôl yr angen er mwyn cyflenwi. Fel arfer, gweinyddwyd y model hwn trwy gyfrwng calendr archebu ar-lein (gweler Ffigwr 4.5) neu thrwy gyfrwng gweinyddwr canolog yn yr ysgol clwstwr arweiniol. Roedd y model hwn yn addas ar gyfer trefnu cyflenwi ar fyr rybudd (megis absenoldeb salwch), ond fe'i defnyddiwyd hefyd i archebu amser athrawon ychwanegol ymlaen llaw a/neu'n rheolaidd. O'r herwydd, byddai modd defnyddio'r model hyblyg hwn yn yr un modd ag amserlen benodol pe byddai ysgolion clwstwr yn dewis archebu amser athrawon ychwanegol mewn amserlen reolaidd. Canfu clystyrau y gallai'r dull gweithredu hwn fodloni anghenion ysgolion clwstwr yn effeithiol wrth iddynt godi, ond y gallai fod yn fwy beichus i'w weinyddu. Roedd angen monitro dosbarthiad teg amser yr athrawon ychwanegol rhwng ysgolion clwstwr yn y model hwn.

Ffigwr 4.5: Enghraifft o amserlen hyblyg

Clwstwr Sir Benfro	Dyraniad a rôl
 3 ysgol  3 athro	Roedd gan yr ysgol uwchradd y capasiti gweinyddol i reoli'r prosiect. Neilltuwyd amser rhwng yr ysgolion yn unol â niferoedd y disgyblion. Defnyddiwyd calendr archebu ar-lein trwy Hwb ar gyfer cyflenwi a gynlluniwyd, ac ail-neilltuwyd athrawon pan fyddai angen gwasanaeth cyflenwi mewn argyfwng.

- 4.13 Cyfuniad o sefydlog a hyblyg. Fel arfer, roedd clystyrau peilot a oedd yn defnyddio cyfuniad o amserlen sefydlog a hyblyg yn mabwysiadu un o ddau ddull gweithredu: defnyddio amserlen sefydlog rhannol i bob un o'r athrawon ychwanegol, a gweddill yr amser yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd hyblyg i fodloni'r galw; a/neu neilltuo amserlen sefydlog i un athro ychwanegol ac amserlen fwy hyblyg i athro ychwanegol arall. Roedd y model hwn yn caniatáu rhyddhau staff yn rheolaidd i ganolbwyntio ar flaenoriaethau ysgol a/neu CPA, gan gynnal elfen o allu ymateb i anghenion ysgolion. Rhoddir enghraifft o'r model hwn yn Ffigwr 4.6.

Ffigwr 4.6: Enghraifft o amserlen gyfunol

Clwstwr Blaenau Gwent	Dyraniad a rôl
 5 ysgol  4 athro	Yn y gymuned ddysgu, defnyddiwyd athrawon i gyflenwi yn ystod absenoldeb salwch a gweithgarwch traws-gyfnod yn y cynradd, a defnyddiwyd amserlen sefydlog rhannol i'r athro yn yr uwchradd yn y ganolfan adnoddau dysgu (a defnyddiwyd gweddill yr amser i gyflenwi yn ystod salwch a DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus)). Mewn ysgolion clwstwr eraill, bu athrawon yn cyflenwi yn ystod absenoldeb salwch, CPA a gweithgareddau pontio.

- 4.14 Mae Tabl 4.1 yn cynnig trosolwg o'r cryfderau a'r sialensiau cyffredin sy'n gysylltiedig â'r gwahanol fodelau darparu. Mae cryfderau a sialensiau eraill sy'n gysylltiedig â darparu'r Prosiect yn ymwneud yn fwy penodol â natur prosiectau clwstwr unigol; er enghraifft, efallai y bydd cefndir addysgu athrawon ychwanegol yn pennu pa gyfnodau allweddol y maent yn teimlo'n gyffyrddus yn cyflenwi ynddynt, neu efallai y bydd ysgol clwstwr yn defnyddio defnyddio'r athrawon

ychwanegol i gyflenwi yn ystod absenoldeb salwch yn bennaf, na fydd yn bosibl efallai os yw'r clwstwr cyfan yn defnyddio amserlen sefydlog er mwyn dyrannu ei amser. Yn ogystal, canfu'r arolwg o ysgolion clwstwr eraill (gweler Atodiad B), bod mwyafrif yr ysgolion o'r farn bod y defnydd o athrawon ychwanegol yn foddhaol; er enghraifft, *'roedd pob ysgol wedi cael dyraniad teg o'r athrawon cyflenwi ac roeddent wedi gallu meithrin perthnasoedd proffesiynol da gyda nhw'* (pennaeth).

Tabl 4.1: Cryfderau a sialensiau y gwahanol fodelau gweithredu

Model gweithredu	Cryfderau	Sialensiau
Amserlen floc	Meithrin perthnasoedd gwaith gyda staff a dysgwyr yn gyflym. Gweithdrefnau cyson ar gyfer yr athro ychwanegol.	Llai o gyfle i rannu arfer rhwng ysgolion dan drefniant parhaus.
Amserlen wythnosol/ pythefnosol sefydlog	Caiff athrawon dosbarth eu rhyddhau'n rheolaidd i ganolbwyntio ar flaenoriaethau ysgol. Cysondeb ar gyfer athrawon ychwanegol a dysgwyr.	Llai o hyblygrwydd i ymateb i anghenion cyflenwi ar fyr rybudd / mewn argyfwng. Cyfle ar gyfer gweithgarwch arsylwi/asesu gyda dosbarthiadau rheolaidd ar gyfer yr ANG.
Amserlen hyblyg	Gellir darparu gwasanaeth cyflenwi ar fyr rybudd.	Gall fod yn feichus i'w weinyddu. Mae angen monitro cyfran deg. Mae'n anodd sicrhau y bodlonir gofynion sefydlu ANG
Amserlen gyfunol	Darperir gwasanaeth cyflenwi rheolaidd ar gyfer CPA. Mae hyblygrwydd ar gael ar gyfer cyflenwi mewn argyfwng.	Sicrhau y cyflawnir cyfleoedd ar gyfer arsylwadau ANG.

Monitro a gwerthuso

Prif ganfyddiadau

- Adroddodd arweinwyr clwstwr bod gweithgarwch monitro y grant gan Lywodraeth Cymru yn hyblyg.
- Adroddodd arweinwyr clwstwr bod y gofynion monitro yn gymesur â swm y cymorth ariannol a gafwyd.
- O bryd i'w gilydd, roedd y clystyrau wedi wynebu rhai sialensiau wrth goladu data monitro.
- Roedd adroddiadau diwedd blwyddyn un yn amrywio yn unol â lefel y manylder a ddarparwyd gan glystyrau.
- Darparwyd templed a chymorth ar gyfer adroddiad diwedd blwyddyn dau.

- 4.15 Yn gyffredinol, roedd ysgolion clwstwr arweiniol yn teimlo'n gadarnhaol am yr hyblygrwydd a ddangoswyd gan Lywodraeth Cymru wrth fonitro'r grant. Er bod gofyn gwneud gwaith monitro rheolaidd, adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol yn gyffredinol eu bod nhw a Llywodraeth Cymru wedi ystyried y Prosiect fel peilot, gan ganiatáu i glystyrau weithredu mewn ffordd hyblyg a threialu dulliau gweithredu wrth gynnal gwaith monitro cyffredinol.
- 4.16 Ar y cyfan, canfu ysgolion clwstwr arweiniol bod y gofynion monitro (ffurflenni hawlio yn arbennig) yn gymesur â swm y cymorth ariannol a gafwyd fel rhan o'r Prosiect. Roedd clystyrau wedi wynebu rhai sialensiau wrth goladu a chyflwyno data monitro ar brydiau, megis: sicrhau bod data yn cael ei gasglu mewn ffordd gyson gan yr holl ysgolion clwstwr; sicrhau bod y ffordd y defnyddiwyd athrawon ychwanegol wedi cael ei chofnodi mewn ffordd briodol; a sicrhau y byddai modd trosi data ar lefel ysgol i adrannau'r ffurflen hawlio yn gywir.
- 4.17 Yn ogystal, roedd gofyn i glystyrau gyflwyno adroddiadau diwedd blwyddyn yn rhoi crynodeb o gynnydd ac effaith eu prosiect peilot. Nid oedd templed penodol ar gyfer yr adroddiadau hyn, felly bu'r adroddiadau ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn amrywiol, wrth i rai clystyrau ddarparu mwy o fanylder nag eraill. Bu Ymchwil Arad

yn cynorthwyo clystyrau gyda'r broses hon (gan gynnwys darparu templed) ar gyfer yr ail adroddiad diwedd blwyddyn.

5. Canlyniadau'r prosiect

- 5.1 Mae'r adran hon yn trafod canlyniadau ac effaith y Prosiect. Yn benodol, mae'n adrodd ar ganfyddiadau allweddol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu; gweithgarwch gwella ysgol ehangach; cydweithio mewn clystyrau; yr effaith ar athrawon ychwanegol; ac arbedion effeithlonrwydd ac arbed costau.

Addysgu a dysgu

Prif ganfyddiadau

- Adroddodd arweinwyr clwstwr a phenaethiaid clwstwr eraill bod y Prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu.
- Adroddodd arweinwyr clwstwr a phenaethiaid clwstwr eraill bod effaith gadarnhaol y Prosiect ar addysgu a dysgu yn deillio o'r ffaith bod athrawon ychwanegol yn cael eu hintegreiddio mewn timau staff a'u bod yn cynnig cysondeb o ran addysgu a dysgu.
- Gydag amser, mae athrawon ychwanegol wedi bod yn cael amserlenni sefydlog fwyfwy neu maent wedi ymgymryd â chyfrifoldeb dros ddosbarthiadau yn fwy rheolaidd, gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gynnydd disgyblion.
- Mae'r Prosiect wedi arwain at fwy o gysondeb o ran addysgu, gan gynorthwyo lles emosiynol dysgwyr a chynnig profiad dysgu mwy sefydlog ac o ansawdd gwell i ddisgyblion.
- Mae athrawon ychwanegol wedi helpu i gynorthwyo pontio a dilyniant effeithiol addysgu a dysgu rhwng cyfnodau allweddol.
- Roedd clystyrau'n teimlo bod cael athrawon yn gweithio ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd wedi eu hannog i gynllunio mewn ffordd fwy strategol ar draws cyfnodau, gan arwain at fanteision i addysgu a dysgu. Mae athrawon ychwanegol wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ymddygiad trwy ymgyfarwyddo â dulliau gweithredu rheoli ymddygiad ysgolion, a'u gweithredu.
- Defnyddiwyd y Prosiect gan rai clystyrau i gynorthwyo'r ddarpariaeth ADY, gan gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

- 5.2 Adroddodd arweinwyr clwstwr a phenaethiaid ysgolion clwstwr eraill bod y Prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu. Trwy ymdrwytho mewn bywyd ysgol, mae athrawon ychwanegol wedi dod i ddeall, a chefnogi, strategaethau addysgu a dysgu ysgolion. Adroddodd arweinwyr clwstwr yn eithaf cynnar yn y Prosiect bod y Prosiect peilot wedi arwain at addysgu o ansawdd uwch, o'i gymharu â'r gwasanaeth a geir gan athrawon cyflenwi trwy lwybrau cyflenwi traddodiadol. Adroddodd un ysgol bod hyn wedi arwain at lai o gwynion gan rieni am effaith gweithgarwch cyflenwi ar addysg eu plant. Roedd athrawon yr oedd athrawon ychwanegol yn addysgu eu dosbarthiadau yn gyson yn hyderus bod athrawon profiadol sy'n deall eu disgyblion yn darparu eu gwersi. Nododd un arweinydd clwstwr: *'Heb y Prosiect hwn, efallai y byddai dosbarthiadau wedi cael eu haddysgu gan CALU neu athrawon cyflenwi nad ydynt yn gyfarwydd â'r ysgol, y dysgwyr neu'r systemau olrhain data. Mae'r cysondeb wedi bod yn hynod o werthfawr'*.
- 5.3 Adroddodd arweinwyr clwstwr a phenaethiaid ysgolion clwstwr eraill bod effaith gadarnhaol y Prosiect ac addysgu a dysgu o ganlyniad i'r ffaith bod athrawon ychwanegol yn cael eu hintegreiddio o fewn timau staff a'u bod yn cynnig cysondeb o ran addysgu a dysgu. Adroddwyd hefyd, wrth i athrawon ychwanegol setlo mewn ysgol neu sawl ysgol, bod eu gweithgarwch cynllunio gwersi a'u haddysgeg yn gwella. *'Yr agwedd fwyaf lwyddiannus ar y Prosiect fu ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws y cyfnodau a'r safonau yn gyffredinol.'* (Arweinydd clwstwr). Roedd arweinwyr clwstwr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod athrawon ychwanegol yn dod i ddeall yn union yr hyn a ddisgwylir ganddynt er mwyn bod yn athrawon annibynnol ac sydd wedi paratoi'n dda. Adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol hefyd bod y Prosiect wedi helpu i leddfu'r pwysau ar athrawon eraill, yr oeddent yn gwybod pan fyddai'n rhaid iddynt fod i ffwrdd o'u dosbarth, bod *'dysgwyr mewn dwylo diogel gan bod yr athro wedi meithrin perthnasoedd gyda'r plant, sef y peth pwysicaf yn anad dim'* (Arweinydd clwstwr). Yn ddieithriad, roedd arweinwyr clwstwr a phenaethiaid ysgolion eraill wedi cymharu'r model mewn ffordd ffafriol gyda threfniadau cyflenwi eraill.
- 5.4 Yn ystod ail flwyddyn y Prosiect, yn arbennig, rhoddwyd amserlenni sefydlog i athrawon ychwanegol neu fe'u gwelwyd yn ymgymryd â chyfrifoldeb dros ddosbarthiadau yn fwy rheolaidd. Cynlluniodd rhai clystyrau i ddefnyddio

arbenigedd pwnc athrawon ychwanegol, rhywbeth a gafodd effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu ac ar gynnydd y dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle'r oedd athrawon ychwanegol wedi dwyn sgiliau mewn meysydd pwnc arbenigol lle y bu prinder athrawon yn draddodiadol. Yn wir, adroddodd penaeithiaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a fu'n cymryd rhan – cynradd ac uwchradd – ar y sialensiau parhaus wrth sicrhau athrawon cyflenwi o ansawdd da. Mae'r Prosiect wedi cyfrannu at lenwi bwlch yn y sector hwn. Ystyriwyd y Prosiect fel buddsoddiad yn ansawdd athrawon cyflenwi, yn ogystal â buddsoddiad mewn capasiti.

- 5.5 Mae'r Prosiect wedi arwain at fwy o gysondeb o ran addysgu, gan gynorthwyo lles emosiynol dysgwyr a chynnig profiad dysgu mwy sefydlog ac o ansawdd gwell i ddisgyblion. At ei gilydd, mae tystiolaeth ar draws y clystyrau'n dynodi bod y ddarpariaeth o ansawdd uwch a ddarperir gan athrawon ychwanegol wedi gwneud gwahaniaeth i ddysgwyr. Gwnaethpwyd yr arsylwad hwn gan arweinwyr clwstwr yn gynnar yn y Prosiect Peilot. Roedd nifer o arweinwyr clwstwr yn cydnabod, fodd bynnag, nad oes modd ffurfio cyswllt uniongyrchol rhwng y Prosiect a chyrhaeddiad dysgu o ystyried amrediad y ffactorau sy'n effeithio ar gynnydd a deilliannau dysgwyr. Mewn rhai clystyrau, roedd athrawon ychwanegol wedi darparu cymorth i ddysgwyr agored i niwed a dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth wrth i ddysgwyr symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg neu wrth iddynt baratoi i symud i fyd oedolyn a'u bywydau ar ôl ysgol. O ganlyniad i'r capasiti ychwanegol a ddarperir trwy gyfrwng y Prosiect, mae ysgolion wedi llwyddo i leihau'r gymhareb myfyrwyr:staff.

Pwysigrwydd cysondeb ar gyfer ansawdd addysgu a dysgu

Soniodd un arweinydd clwstwr am effaith gadarnhaol cael athro cyflenwi cyson ar gyfer y dysgwyr a'r staff addysgu eraill yn yr ysgol;

'Pan fu'n rhaid i ni gael gwasanaeth cyflenwi i ychwanegu ato [y model cyflenwi clwstwr], ni fu dysgu y plant gystal. Mae'r plant yn hapus i weld wyneb cyfarwydd ac mae'r plant yn ymateb yn dda iawn. Pan ddywedir wrth blant bod athro ychwanegol yn mynd i fod yn rhoi'r wers, gallant fynd adref yn dawel eu meddwl gan eu bod yn gwybod pwy fydd ganddynt. I blant y mae newid yn rhywbeth sy'n peri straen iddynt, mae eu paratoi y diwrnod cynt trwy nodi pwy fydd yr athro cyflenwi yn ddefnyddiol iawn. Mae cyfathrebu hawdd rhwng yr athro dosbarth a'r athro ychwanegol yn golygu bod yr athro cyflenwi yn llwyr ymwybodol o'r materion y gallent effeithio ar les emosiynol y plant. Mae safon y gwaith a gynhyrchir gan y plant yn llawer gwell nag y mae pan fyddant yn cael athrawon cyflenwi arferol, a chaiff ei farcio mewn ffordd briodol.' (Arweinydd clwstwr)

- 5.6 Mae athrawon ychwanegol wedi helpu i gynorthwyo pontio a dilyniant effeithiol o ran addysgu a dysgu rhwng cyfnodau allweddol. Mae athrawon ychwanegol sydd wedi gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn clwstwr wedi cynorthwyo gweithgarwch cynllunio gwell o'r ddarpariaeth ym Mlwyddyn 7 er mwyn galluogi dilyniant gwell ac osgoi dyblygu dysgu ar ddechrau Cyfnod Allweddol 3. Cyflawnwyd hyn trwy rannu dulliau gweithredu addysgu a dysgu a gweithgarwch cynllunio ar y cyd a oedd wedi cynnwys athrawon ychwanegol a thimau staff craidd.

Effaith gadarnhaol ar bontio: Roedd un athro ychwanegol yn cyflwyno Gwyddoniaeth i flwyddyn 7 ac roedd wedi trafod y sgiliau y byddai eu hangen ar y dysgwyr ym mlwyddyn 7 gydag un o'r penaethiaid cynradd. O ganlyniad, newidiwyd rhywfaint o gwricwlwm Blwyddyn 6, a chroesawyd hyn yn yr ysgol gynradd, yn enwedig pan ystyriwyd pa mor berthnasol ydoedd i gynnydd dysgwyr wrth iddynt symud ymlaen i flwyddyn 7. (Arweinydd Clwstwr)

- 5.7 Roedd arweinwyr clwstwr yn teimlo bod cael athrawon yn gweithio ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd yn eu hannog i gynllunio mewn ffordd fwy strategol ar draws cyfnodau, gan arwain at fanteision i'r addysgu a'r dysgu. Mewn un enghraifft, nodwyd rhai o'r dysgwyr mwy agored i niwed ym mlwyddyn 6 ac fe'u neilltuwyd i grŵp tiwtor athro ychwanegol ar gyfer blwyddyn 7 y flwyddyn ddilynol. *'Roedd rhieni wrth eu bodd pan welsant bod yr aelod o staff a fyddai gyda eu plentyn yn athro a oedd yn adnabod eu plentyn yn barod. Roedd y dysgwyr hefyd wrth eu bodd o'i chael hi fel eu tiwtor'.* (Arweinydd clwstwr)
- 5.8 Mae athrawon ychwanegol wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ymddygiad trwy ymgyfarwyddo â dulliau gweithredu rheoli ymddygiad ysgolion, a'u gweithredu. Adroddodd arweinwyr clwstwr a phenaethiaid ysgolion clwstwr eraill bod y perthnasoedd a ffurfiwyd rhwng yr athrawon ychwanegol a'r dysgwyr wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwael. Nodwyd hyn yn ystod dyddiau cynnar y Prosiect peilot. Yn ogystal, adroddodd arweinwyr clwstwr y bydd disgyblion yn aml – yn enwedig disgyblion hŷn – yn 'profi'r terfynau' pan fydd athrawon cyflenwi o asiantaeth yn dod i mewn i gymryd gwersi. Ni fu hyn yn gymaint o broblem gydag athrawon ychwanegol: mae ysgolion yn adrodd bod mwy o atebolrwydd yn y model (o ganlyniad i'r ffaith bod yr athro wedi'u lleoli yn y clwstwr) ac mae'r gwersi wedi cynnwys mwy o ffocws ac maent wedi bod yn fwy buddiol.
- 5.9 Defnyddiwyd y Prosiect gan rai clystyrau er mwyn cynorthwyo'r ddarpariaeth ADY, gan gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Mewn rhai clystyrau, rhoddwyd ffocws penodol ar gynorthwyo'r ddarpariaeth ADY. Mae astudiaeth achos 2 yn trafod yr anawsterau y mae Ysgolion arbennig yn eu cael wrth geisio recriwtio personél medrus. Defnyddiwyd athrawon ychwanegol er mwyn darparu capasiti ychwanegol i gynorthwyo dysgwyr sydd ag ADY, mewn ysgolion prif ffrwd ac mewn Ysgolion arbennig a fu'n ymwneud â'r peilot. Roedd un Ysgol arbennig wedi defnyddio'r Prosiect i gyflenwi yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch hirdymor, gan ddarparu 'sefydlogrwydd a pharhad aruthrol i grŵp o fyfyrwyr y byddent wedi cael gwasanaeth cyflenwi treigl fel arall'. Nododd y pennaeth yn yr ysgol hon y byddai wedi bod 'bron yn amhosibl' sicrhau athro trwy asiantaeth gyflenwi a fyddai'n meddu ar y sgiliau cywir.

- 5.10 Mae'r Prosiect wedi arwain at fwy o gapasiti i gynnig darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion prif ffrwd hefyd. Trwy gyfrwng y Prosiect, rhyddhawyd athro cyfrwng Cymraeg arbenigol i weithio ar draws ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, gan ddarparu cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr. Mae'r arweinydd clwstwr yn amcangyfrif, o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth hwn, a hwyluswyd trwy'r peilot clystyrau cyflenwi, y llwyddwyd i gadw chwe dysgwr mewn addysg prif ffrwd y byddent wedi trosglwyddo i ysgolion arbennig fel arall. Felly, mae'r Prosiect wedi arbed costau trwy gadw plant mewn addysg prif ffrwd²⁶ a gwella ADY cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig, gan gynorthwyo blaenoriaethau polisi ehangach a nodir yn rhaglen trawsnewid Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) Llywodraeth Cymru.

Gwelliant ehangach mewn ysgolion

Prif ganfyddiadau

- Roedd hi'n gyffredin i arweinwyr clwstwr a phenaethiaid ysgolion clwstwr eraill adrodd na fyddent wedi llwyddo i ryddhau staff i'r un graddau heb y Prosiect hwn.
- Dewisodd rhai ysgolion clwstwr ryddhau aelodau o staff i ganolbwyntio ar symud blaenoriaethau gwella ysgol yn eu blaen.
- Adroddodd ysgolion clwstwr hefyd eu bod wedi defnyddio athrawon ychwanegol i ryddhau staff at ddibenion cynllunio / CPA (yn arbennig er mwyn cynorthwyo trefniadau asesu a chwricwlwm newydd).
- Roedd hi'n beth cyffredin i ysgolion clwstwr ddefnyddio athrawon ychwanegol i ryddhau staff ar gyfer datblygiad proffesiynol (naill ai cyrsiau hyfforddiant neu weithgareddau dysgu proffesiynol yn yr ysgol).
- Yn aml, roedd arweinwyr clwstwr yn gallu cynnig enghreifftiau o'r gwelliannau yr oeddent wedi'u gweld yn eu hysgolion o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi rhyddhau staff at ddibenion gwella ysgol.
- Gwelwyd enghreifftiau o rôl yr athro ychwanegol yn cynorthwyo

²⁶Amcangyfrifwyd ei bod yn costio tua £25,000 y flwyddyn i addysgu plentyn mewn ysgol arbennig.

blaenoriaethau gwella ysgol yn uniongyrchol i raddau mwy nag y gall athrawon o asiantaethau cyflenwi allanol ei wneud.

- Pwysleisiodd arweinwyr clwstwr yr effaith gadarnhaol y gall cyflenwi ychwanegol o'r fath ei gael ar les staff yn ehangach.

- 5.11 Yn hytrach na defnyddio athrawon ychwanegol i gyflenwi yn ystod absenoldebau salwch ar fyr rybudd, mae nifer o ysgolion clwstwr wedi ceisio gwneud defnydd pwrpasol o amser yr athrawon ychwanegol er mwyn cael gwerth ychwanegol o'r Prosiect. Mae hyn wedi golygu rhyddhau staff o ystafelloedd dosbarth i weithio ar weithgareddau gwella mwy strategol ar draws yr ysgol gyfan. Roedd hi'n beth cyffredin i ysgolion clwstwr adrodd na fyddent wedi gallu rhyddhau staff i'r un graddau heb y Prosiect hwn.
- 5.12 Roedd hi'n arferol neilltuo tasgau penodol neu weithgareddau i ganolbwyntio arnynt i athrawon a oedd yn cael eu rhyddhau, yr oeddent yn ymwneud yn fawr â blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun datblygu ysgol. Rhyddhawyd athrawon eraill i ganolbwyntio ar brosiectau penodol, megis prosiectau cydweithio rhanbarthol. Felly, roedd y Prosiect wedi darparu capasiti cyflenwi ychwanegol ac mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o'r ffyrdd yr oedd ysgolion clwstwr wedi rhyddhau staff i ganolbwyntio ar flaenoriaethau gwella ysgol:
- Caniatáu i'r cydlynnydd llythrennedd adolygu darpariaeth lythrennedd yr ysgol;
 - Cynnal troeon dysgu gyda ffocws penodol, megis ar asesu ar gyfer dysgu;
 - Cynnal gwaith ymchwil gweithredol sy'n ymwneud â meysydd gwella ysgol;
 - Cynllunio ar gyfer gwaith safoni gwell ar draws yr ysgol;
 - Caniatáu i uwch-reolwyr ganolbwyntio ar wella systemau gwerthuso a monitro ar draws yr ysgol;
 - Caniatáu i uwch-reolwyr ganolbwyntio ar gynllunio pontio;
 - Sefydlu dulliau gweithredu ar gyfer ymddygiad ar draws yr ysgol; a
 - Chynorthwyo prosiect asesu ffurfiannol rhanbarthol.

Rhoi sylw i flaenoriaethau ysgol

Rhoddodd un arweinydd clwstwr enghraifft o'r ffordd yr oedd y Prosiect wedi cynorthwyo'r ysgol i wella safonau; *'Fel ysgol, bu'r Prosiect yn werthfawr iawn wrth ein caniatáu i ddarparu gwasanaeth cyflenwi o ansawdd yn syth pan fydd staff yn sâl. Fodd bynnag, gwerth mwyaf y Prosiect fu'r ffaith bod yr ysgol wedi gallu defnyddio'r [athro ychwanegol] yn rheolaidd (e.e. yn wythnosol ar gyfer [ein hysgol]) er mwyn gallu gwneud gwaith safoni mewnol yn yr ysgol. Mae hyn wedi caniatáu i'r Tîm Arwain Uwch ac arweinwyr pwnc i fonitro a chodi safonau addysgu a dysgu yn barhaus.'* (Arweinydd clwstwr)

- 5.13 Yn ogystal, adroddodd ysgolion clwstwr eu bod wedi bod yn defnyddio athrawon ychwanegol i ryddhau staff at ddibenion cynllunio / CPA. Amlygwyd y ffaith bod hon yn elfen arbennig o bwysig wrth baratoi athrawon a'r ysgol ar gyfer y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Roedd enghreifftiau o'r math o weithgareddau a gynhaliwyd gan athrawon a ryddhawyd at y diben hwn yn cynnwys cynllunio traws-gwricwlaidd i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd a chynllunio ar y cyd gyda chydweithwyr (er enghraifft, cynllunio mewn triawdau). Adroddwyd ei bod yn heriol cyflawni'r math hwn o waith cynllunio traws-gwricwlaidd pan na ellir rhyddhau athrawon o'r ystafell ddosbarth. Roedd athrawon ychwanegol yn cyflenwi er mwyn diwallu anghenion CPA ehangach hefyd, y byddai mecanweithiau cyflenwi eraill wedi cael eu defnyddio ar gyfer hyn fel arfer.
- 5.14 Yn ogystal, roedd hi'n beth cyffredin i ysgolion clwstwr ddefnyddio athrawon ychwanegol i ryddhau staff ar gyfer datblygiad proffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys rhyddhau staff i fynychu cyrsiau penodol (megis hyfforddiant ynghylch ADY), yn ogystal ag er mwyn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar eu datblygiad proffesiynol a'u safonau proffesiynol eu hunain. Mae enghreifftiau o'r math o ddatblygiad personol sydd ar gael i athrawon a gaiff eu rhyddhau fel hyn yn cynnwys: Rhyddhau athrawon i roi sylw i'r safonau proffesiynol newydd trwy gydweithio gyda chydweithwyr; arsylwi arfer mewn meysydd lle y mae angen sicrhau gwelliant; sicrhau na ofynnir i aelodau uwch o staff (megis penaethiaid) i gyflenwi yn ystod amser CPA yn rheolaidd.

- 5.15 Cafwyd enghreifftiau gan ysgolion clwstwr o'r gwelliannau yr oeddent wedi'u gweld yn eu hysgolion o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn rhyddhau staff at ddibenion gwella ysgol. Mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys prosesau hunanwerthuso gwell; sefydlu prosesau monitro ac asesu cyn pryd; gwaith cynllunio gwell er mwyn bodloni gofynion y cwricwlwm newydd; gwelliant mewn safonau yn dilyn arolygiad Estyn; ac arweinyddiaeth gyson er mwyn sicrhau cynnydd gyda blaenoriaethau allweddol.

Effaith argaeledd gwasanaeth cyflenwi ychwanegol

Roedd un ysgol clwstwr wedi buddsoddi yn 'Thrive' (rhaglen cynorthwyo lles). *'Mae lles yn agenda fawr yn ein hysgol ni, ac mae llawer o waith yn gysylltiedig â hi, ac mae gallu rhyddhau aelod o staff i symud pethau yn eu blaen a gwybod y gallwn wneud hynny mewn ffordd drefnus – y gallwn wneud hynny heb weld effaith negyddol ar y dosbarth – wedi bod yn bwysig iawn i ni'.*

Hyfforddwyd y staff yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond bu'r cyfleoedd i weithredu'r hyn a ddysgodd y staff o'r hyfforddiant yn gyfyngedig. Mae'r arweinydd lles wedi gallu canolbwyntio ar hynny eleni, ac erbyn hyn, ceir pecyn cynhwysfawr sydd ar gael i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol *'yn cael gwerth o'r arian a fuddsoddwyd mewn hyfforddiant ac mae'n disgyblion yn cael budd gan yr arbenigedd a ddatblygodd y staff'.* (Arweinydd clwstwr)

- 5.16 Ceir enghreifftiau hefyd o rôl yr athro ychwanegol yn cynorthwyo blaenoriaethau gwella ysgol yn uniongyrchol yn fwy nag y gall athrawon asiantaethau cyflenwi allanol ei wneud. Er enghraifft, ar brydiau, mae ysgolion clwstwr wedi gallu gwneud y defnydd gorau o arbenigedd a sgiliau presennol athrawon ychwanegol er mwyn rhoi sylw i feysydd gwella penodol (megis cynorthwyo gweithgareddau meithrin). Ar achlysuron eraill, mae athrawon ychwanegol wedi gallu cynorthwyo gweithgareddau allgyrsiol (megis teithiau preswyl), pan na fydd athrawon asiantaethau cyflenwi allanol yn gallu ei wneud fel arfer. Mae astudiaeth achos 3 yn cynnig enghraifft o athrawon ychwanegol yn cynorthwyo blaenoriaethau o'r fath. Yn ogystal, mae athrawon ychwanegol wedi gallu rhannu dysgu gyda chydweithwyr mewn gwahanol ysgolion er mwyn cynorthwyo dysgu proffesiynol, ar ôl arsylwi addysgu a dysgu

mewn gwahanol leoliadau. Fodd bynnag, nododd lleiafrif o benaethiaid a oedd yn ymateb i'r arolwg ar gyfer ysgolion clwstwr nad oedd rhai athrawon ychwanegol yn gallu addysgu'r Cyfnod Sylfaen, a oedd yn cyfyngu ar allu y clwstwr i gyflawni eu nodau bwriadedig ar gyfer y Prosiect.

- 5.17 Weithiau, pwysleisiodd ysgolion clwstwr yr effaith gadarnhaol y gall cyflenwi ychwanegol o'r fath ei gael ar les y staff yn ehangach. Heb wasanaeth cyflenwi o'r fath, adroddodd ysgolion clwstwr y byddai athrawon yn cwblhau gweithgareddau gwella ysgol (gan gynnwys gweithgareddau gwerthuso) yn eu hamser eu hunain. Barnir bod hyn yn rhoi baich ychwanegol ar athrawon y mae ganddynt lwyth gwaith trwm yn barod; *'rhan fwyaf lwyddiannus y Prosiect fu cael athro sbâr er mwyn gallu rhyddhau'r tîm rheoli uwch i gyflawni eu rôl mewn ffordd fwy effeithiol. Yn y gorffennol, a blwyddyn nesaf, bydd athrawon yn ysgrifennu'r adroddiadau monitro hyn yn eu hamser eu hunain gan nad wyf yn gallu fforddio eu rhyddhau – hwn fu'r budd mwyaf'* (arweinydd clwstwr). Canfu'r arolwg o ysgolion clwstwr hefyd bod y Prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar lwyth gwaith staff ac ar flaenoriaethau ysgol eraill mewn rhai ysgolion clwstwr, ond nid ym mhob un (Atodiad B). O bryd i'w gilydd yn ystod cyfweiliadau, soniodd arweinwyr clwstwr a phenaethiaid ysgolion clwstwr eraill bod athrawon dosbarth wedi cael budd hefyd o'r ffaith bod ganddynt fwy o hyder yn y gwasanaeth cyflenwi sydd ar gael, gan wybod y gallant gymryd amser i ffwrdd o'u dosbarth heb i hyn gael effaith niweidiol ar addysg y dysgwyr.

Cydweithio o fewn clystyrau

Prif ganfyddiadau

- Mae'r Prosiect wedi bod yn effeithiol wrth gryfhau cydweithio mewn clystyrau.
- Rhannodd ysgolion clwstwr ddulliau gweithredu rheoli effeithiol.
- Rhannodd athrawon ychwanegol ddulliau gweithredu addysgu a dysgu rhwng ysgolion clwstwr.
- Cwblhawyd prosiectau ysgolion clwstwr cydweithredol.
- Mae athrawon wedi llwyddo i arwain datblygiadau a pherchen ar ac ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros fentrau.
- Bu effaith gadarnhaol ar brosesau pontio i ysgolion a dysgwyr.
- Mwy o gymhellant i ymgysylltu â gwaith ar y cyd yn y dyfodol rhwng ysgolion clwstwr.

- 5.18 Mae'r Prosiect wedi bod yn effeithiol wrth gryfhau cydweithio rhwng ysgolion clwstwr. Adroddodd rhai arweinwyr clwstwr a nododd bod gwaith ar y cyd cadarn yn digwydd yn y clwstwr cyn y Prosiect, am gydweithio gwell. Roedd cydweithio effeithiol yn amlwg o'r cyfnod cynllunio; er enghraifft, ar ôl i'r holl benaethiaid mewn un clwstwr gytuno ymgeisio am y cyllid ar ffurf grant, aeth is-grŵp clwstwr llai ati i baratoi'r cais. O bryd i'w gilydd, adroddodd arweinwyr clwstwr bod eu gweithgarwch cydweithio yn gadarn cyn y Prosiect, ac nad oedd y Prosiect wedi cael unrhyw effaith ar hyn. Mabwysiadwyd dull gweithredu cydweithredol er mwyn amserlennu athrawon ychwanegol, ac roedd tri chwarter yr ysgolion clwstwr eraill a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno bod yr athrawon ychwanegol wedi cael eu defnyddio mewn ffordd deg, ac roedd yr adborth a gafwyd ganddynt yn ystod cyfarfodydd clwstwr yn cyfrannu at hyn. Barnwyd bod cael hyblygrwydd wrth ddyrannu athrawon clwstwr yn beth cadarnhaol, ac roedd rhai clystyrau yn gallu bodloni ceisiadau gan ysgolion unigol i newid y trefniadau o ran pryd yr oeddent yn cael eu cyfran nhw o amser yr athro ychwanegol.
- 5.19 Adroddodd arweinwyr clwstwr a phenaethiaid ysgolion clwstwr eraill bod y clystyrau wedi trafod rheolaeth a darpariaeth y Prosiect yn rheolaidd ac y bu'r cyfathrebu rhwng ysgolion yn effeithiol. Roedd amlder y cyfarfodydd rhwng ysgolion clwstwr yn amrywio'n fawr, gyda rhai yn trefnu cyfarfodydd bob hanner tymor ac eraill yn

cyfarfod bob tymor. Mewn rhai achosion, roedd y Prosiect yn eitem ar agenda cyfarfodydd clwstwr misol. Nododd un arweinydd clwstwr, er eu bod yn gweithio gydag ysgolion eraill, *'oni bai bod gennych chi reswm penodol dros gyfarfod, weithiau bydd wythnosau yn gallu mynd heibio cyn i chi gyfarfod ac mae'r [Prosiect] hwn wedi creu calendr swyddogol bron y mae'n rhaid i ni ei ddilyn gan bod yn rhaid i ni gyflawni rhwymedigaethau penodol ac o ganlyniad, ychwanegir pethau eraill i'r agenda ac fe'u trafodir'*.

- 5.20 Adroddodd rhai arweinwyr clwstwr bod ysgolion clwstwr yn rhannu offerynnau a dulliau gweithredu rheolaeth effeithiol trwy gydol y Prosiect. Er enghraifft, defnyddiwyd calendr ar-lein i oruchwyllo'r broses o neilltuo athrawon clwstwr, ac roedd hi'n hawdd i athrawon ychwanegol a'r gwahanol ysgolion i droi at y calendr, ac roedd y clwstwr a drafodir yn Astudiaeth achos 1 wedi defnyddio'r offeryn hwn mewn ffordd effeithiol. Roedd y dull gweithredu hwn yn golygu hefyd bod athrawon ychwanegol yn gallu troi at eu hamserlen ymlaen llaw. Roedd cael un aelod o staff, yn ysgol arweiniol y clwstwr fel arfer, fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer athrawon ychwanegol, yn effeithiol hefyd, gan sicrhau cyfathrebu clir. Defnyddiwyd y dull gweithredu a ddefnyddiwyd i rannu gwybodaeth ar-lein yn ystod y Prosiect i rannu dogfennau eraill ar y cyd o fewn un clwstwr. Er enghraifft, datblygwyd Cynlluniau Datblygu Ysgol a Chynllun Gwella y Clwstwr ar y cyd, gan ddefnyddio'r un platfform ar-lein.
- 5.21 Bu athrawon ychwanegol yn rhannu dulliau gweithredu addysgu a dysgu rhwng ysgolion clwstwr. Roedd penaethiaid yn barnu bod rhannu arfer a syniadau, megis dulliau gweithredu ar gyfer y cwricwlwm newydd, strategaethau rheoli ymddygiad, dulliau gweithredu er mwyn cynorthwyo dysgwyr neu syniadau penodol ynghylch cyflwyno'r cwricwlwm, yn ganlyniadau cadarnhaol a oedd yn deillio o'r Prosiect. Nododd un pennaeth ysgol clwstwr bod yr athro ychwanegol wedi *'mynd ag arfer gorau a strategaethau yn ôl i'r ysgol arall, gan ychwanegu gwerth iddynt'*.

Rhannu arfer effeithiol

Soniodd un arweinydd clwstwr am enghraifft lle'r oedd yr athro ychwanegol wedi arsylwi plentyn a oedd yn cael anhawster wrth ffurfio brawddegau yn annibynnol. Roedd yr athro yn cofio gweld rhaglen yn cael ei darparu yn un o'r ysgolion clwstwr eraill ynghylch ffurfio brawddegau mewn ffordd systematig; yna, defnyddiwyd hyn i gynorthwyo'r plentyn. Bu'n llwyddiant, ac mae'r plentyn yn parhau i ddefnyddio'r rhaglen. (Arweinydd clwstwr)

5.22 Cwblhawyd prosiectau ysgolion clwstwr cydweithredol llwyddiannus yn ystod y Prosiect. Cynorthwywyd prosiectau clwstwr yn uniongyrchol wrth i athrawon ychwanegol ddarparu gweithgareddau ar draws ysgolion clwstwr, neu wrth i'r athrawon ychwanegol gyflenwi yn ystod gwersi a oedd yn golygu bod athrawon eraill yn gallu cwblhau gweithgareddau o'r fath, mynychu cyfarfodydd neu hyfforddiant er mwyn symud prosiect clwstwr yn ei flaen. Mae enghreifftiau o brosiectau o'r fath yn cynnwys:

- Cyfarfodydd Meysydd Dysgu a Phrofiad er mwyn cyfrannu at ddatblygiad y cwricwlwm newydd.
- Dyniaethau – bu'r prif athrawon dosbarth yn addysgu ochr yn ochr â'r athrawon ychwanegol am dymor, gan gynnig y cyfle hefyd i dynnu grwpiau bach o ddisgyblion allan i ganolbwyntio ar elfennau penodol o'r prosiect.
- Datblygiad y cwricwlwm mathemateg – roedd pob athro ychwanegol wedi mynychu hyfforddiant ac maent wedi cael mewnbwn ar draws yr holl ysgolion clwstwr ynghylch datblygu cwricwlwm mathemateg cyson ar draws un clwstwr.
- Hyfforddiant i ddysgwyr Mwy Abl a Thalentog
- Hyfforddiant Cyfiawnder Adferol
- Rhannu swyddog presenoldeb
- Rhannu athro Cymraeg

- Roedd rhannu dulliau gweithredu rheoli dysgu ac ymddygiad ar draws cyfnodau wedi arwain at ddealltwriaeth well o'r dulliau gweithredu ar gyfer un clwstwr.
- STEM – bu'r athrawon ychwanegol yn cynorthwyo athrawon dosbarth i gyflawni prosiect dros hanner tymor, a arweiniodd at gyflwyniad a fynychwyd gan yr holl ysgolion clwstwr.

- 5.23 Mae gweithgareddau a ysgogwyd gan y Prosiect wedi helpu i sicrhau bod cydweithio yn dod yn rhan integredig gynyddol o'r ffordd y mae ysgolion yn cynllunio ac yn darparu, gan gynorthwyo gwaith ysgol-i-ysgol ehangach. Mae athrawon wedi cael yr amser i arwain ar ddatblygiadau ac ymgymryd â pherchnogaeth a chyfrifoldeb. Fodd bynnag, roedd cofnod presenoldeb gwael un athro ychwanegol wedi cyfyngu'r cynnydd yr oedd un clwstwr wedi llwyddo i'w wneud yn erbyn amcanion y clwstwr.
- 5.24 Mae'r Prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau pontio i ysgolion a dysgwyr. Mae'r Prosiect wedi galluogi cydweithio rhwng ysgolion sydd wedi cynorthwyo gweithgareddau pontio ysgolion. Roedd athrawon ychwanegol a fu'n gweithio ar draws cyfnodau wedi gallu meithrin perthnasoedd dros y tymor hwy gyda dysgwyr blwyddyn 6 ac roedd y 'wyneb cyfarwydd', a'r cysondeb o ran y dull gweithredu ar gyfer ymddygiad a dysgu, yn cynorthwyo pontio effeithiol i'r cyfnod uwchradd. Adroddodd ambell i glwstwr y datblygwyd prosiectau pontio penodol o ganlyniad i'r cyllid ar ffurf grant; er enghraifft, darparwyd gwersi AG i bob ysgol gynradd yn y clwstwr, a chynhaliwyd gweithgareddau yn yr ysgol uwchradd hefyd.

Cydweithio yn y dyfodol – Ar ôl sefydlu swyddog ymddygiad ar y cyd ar gyfer y clwstwr yn ddiweddar, mae'r Prosiect wedi golygu bod yr ysgolion clwstwr yn siarad mwy am eu haddysgu a strwythur eu hysgolion. Cynhelir trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o 'gyfuno CALU' – ni fyddai hyn wedi digwydd heb y Prosiect. (Arweinydd clwstwr)

O ganlyniad i'r Prosiect, mae'r clwstwr yn rhannu cynorthwyrwyr addysgu, ac mae hyn yn golygu y rhennir profiad, arbenigedd a dulliau addysgu rhwng ysgolion. Er enghraifft, mae un yn cwblhau'r holl asesiadau Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) ar gyfer y clwstwr a daeth staff profiadol ym maes Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) ar draws y clwstwr ynghyd i ddatblygu dull gweithredu cyson ar gyfer yr holl ysgolion yn y clwstwr – 'mae'r holl gapasiti er mwyn gallu arwain a rheoli hyn wedi dod o fod yn gallu rhyddhau rhai o'r staff yn yr ysgolion cynradd i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn'. (Arweinydd clwstwr)

'Os yw'n gallu gweithio gyda chyflenwi, pam nad yw'n gallu gweithio gydag ADY? Pam na allai weithio gydag AG neu bresenoldeb?' (Arweinydd clwstwr)

- 5.25 Mae'r cymhelliant ymysg ysgolion clwstwr i gydweithio yn y dyfodol wedi cynyddu. Nododd un arweinydd clwstwr bod y Prosiect wedi helpu i gyflymu cydweithio ar draws y clwstwr, ac adroddodd un arall bod gweithredu'r Prosiect wedi arwain at fwy o drafodaeth ynghylch *'yr hyn y mae'r clwstwr yn dymuno ei wneud [ar y cyd] a sut y gallant ei gyflawni'*. Cadarnhaodd y clwstwr penodol hwn bod ymdrech bellach i ddarparu hyfforddiant ar y cyd i staff, a rhennir cyfleoedd megis ymwelwyr arfaethedig i ysgolion yn fwy gydag ysgolion clwstwr eraill nawr.

Athrawon ychwanegol

Prif ganfyddiadau

- Roedd yr athrawon ychwanegol wedi cael budd trwy ddatblygu eu sgiliau, eu cymhwysedd a'u hyder.
- Darparwyd amrediad o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i athrawon ychwanegol.
- Roedd athrawon ychwanegol wedi cael budd gan y cymorth cyson gan fentor a gawsant ar gyfer eu gweithgarwch ymsefydlu ANG.
- Roedd nifer o athrawon ychwanegol wedi cwblhau eu cyfnod ymsefydlu ANG.
- O bryd i'w gilydd, roedd diffyg addysgu cyson a rheolaidd mewn dosbarthiadau er mwyn caniatáu ar gyfer yr elfen baratoi/gwerthuso sy'n ofynnol er mwyn sicrhau'r cyfnod ymsefydlu ANG, yn rhwystr.
- Roedd sawl athro wedi llwyddo i sicrhau cyflogaeth barhaol.
- Barnwyd bod y cyflog a'r amodau a oedd yn gysylltiedig â'r rôl yn well nag y maent ar gyfer gwaith cyflenwi arferol.
- Estynnwyd contractau sawl athro ychwanegol.
- Mae meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda chymuned ehangach yr ysgol wedi bod yn ganlyniad ychwanegol.

Manteision a brofwyd gan athrawon ychwanegol

- 5.26 Mae athrawon ychwanegol wedi cael budd wrth gyflawni eu rôl yn y Prosiect, sef y ffaith bod eu sgiliau, eu cymhwysedd a'u hyder wedi datblygu, yn enwedig trwy gael y profiad o addysgu grwpiau oedran gwahanol, mewn amrediad o ysgolion y mae ganddynt ddulliau gweithredu amrywiol o ran addysgeg. Nododd un arweinydd clwstwr *'mae hyder yr athro ychwanegol wedi datblygu, ac er ei bod hi wastad wedi bod yn hyderus ynghylch cynllunio gwersi, mae hyn wedi gwella heb os. Mae hi wedi addysgu ar draws pob blwyddyn ac mae wedi cyflenwi yn ystod absenoldebau salwch, CPA a safoni. Mae wedi meithrin sgiliau cadarn, o ganlyniad i'r profiad a gafodd yn y gwahanol ysgolion ac mae'n gallu ymateb i unrhyw sialensiau ynghylch ADY/ymddygiad gyda llawer yn llai o gymorth nawr'*.

5.27 Cynigiwyd amrediad o gyfleoedd datblygiad personol i athrawon ychwanegol yn ystod y Prosiect. Darparwyd DPP yn yr ysgol arweiniol a hefyd, mewn ysgolion ar draws y clwstr. Roedd amllder yr hyfforddiant yn amrywio ac mae wedi cynnwys: hyfforddiant ANG penodol; sesiynau CPA wythnosol yn yr ysgol arweiniol; sesiynau HMS wythnosol gyda'r hwyr; diwrnodau hyfforddiant staff ar gyfer yr ysgol gyfan (lle y mae athrawon ychwanegol wedi teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys fel rhan o dîm y staff); cyfleoedd i arsylwi aelodau eraill o staff; a chysiau hyfforddiant unigol a archebwyd i gynorthwyo gweithgarwch ymsefydlu ANG. Mae amrediad yr hyfforddiant a ddarparwyd wedi rhoi sylw i ofynion athrawon unigol yn ogystal â thargedau datblygu ysgolion megis addysgeg / dulliau gweithredu addysgu / gweithredu'r cwricwlwm newydd. Roedd athrawon ychwanegol o'r farn bod y cyfleoedd datblygiad proffesiynol yn agwedd bwysig ar y rôl ac yn cynnig budd pwysig, yn enwedig y ffaith bod ganddynt fentor ysgol cyson. Yn ogystal, amlinellodd penaeithiaid bwysigrwydd cael mentor penodedig yn gweithio ar draws y clwstr ac yn gallu trefnu a chydlyn gweithgareddau DPP a chymorth ar gyfer athrawon ychwanegol ANG. Canfu'r gwerthusiad bod arweinwyr clwstr ac athrawon ychwanegol yn tybio bod y DPP rheolaidd a strwythuredig wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a phroffesiynoldeb athrawon ychwanegol. Mewn lleiafrif bach o achosion, roedd athrawon ychwanegol yn teimlo nad oedd y cymorth a oedd ar gael gan fentoriaid mor gyson a bod modd priodoli hyn i gyfathrebu gwael rhwng ysgolion ar draws y clwstr.

Profiad cadarnhaol o ddatblygiad proffesiynol

Disgrifiodd un athro ychwanegol y cyfleoedd datblygiad proffesiynol amrywiol yr oeddent wedi'u cael. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant yn ystod cyfnodau CPA rheolaidd ynghylch gwahaniaethu mewn dulliau addysgu, cynorthwyo dysgwyr EAL a lles. Roedd hyn yn wahanol iawn i'w profiad o weithio fel athro cyflenwi gan eu bod yn teimlo'u bod yn cael cymorth da nawr a 'bod rhywun i'w holi'.

'Rydych yn mynd trwy'ch deunydd ANG gyda grŵp cyfan o bobl, ac nid oedd hyn yn wir o'r blaen – roeddech chi ar eich pen eich hun. Yn ychwanegol i dîm yr athrawon ychwanegol, ceir yr holl Athrawon Newydd Gymhwyso eraill yn yr ysgolion.' (Athro ychwanegol)

'Byddai'n beth da i bob athro sy'n dod allan o'r coleg wneud hyn neu gael profiad tebyg (i brofiad yr athrawon ychwanegol trwy'r Prosiect hwn) – rydw i'n credu ei fod bron yn cynnig profiad tebyg i brentisiaeth i athrawon newydd, ac mae'n cynnig dirnadaeth i athrawon o bedair, pum neu chwech ysgol wahanol. Mae'n cynnig profiad cyfoethog ac mae'n cyd-fynd yn dda gyda'r hyn y mae pobl yn ceisio'i gyflawni trwy'r cwricwlwm a'r pwyslais ar weithio ysgol-i-ysgol.' (Arweinydd clwstwr)

- 5.28 Mae athrawon ychwanegol wedi cael budd o brofi amrediad o ddulliau gweithredu tuag at DPP ar draws clystyrau. Mae hyn wedi eu galluogi i fanteisio ar a gweithredu gwahanol strategaethau a dulliau ar draws yr ysgolion y maent yn gweithio ynddynt. Mae astudiaethau achos 1 a 4 yn dangos y gweithgarwch rhannu arfer rhwng ysgolion clwstwr. Fel y nododd un athro ychwanegol; *'Rydw i wedi cael amrediad o gyfleoedd trwy gydol y rôl hwn ac ar draws y dair ysgol yn y clwstwr. Mae gennyf ddealltwriaeth ddyfnach o'r ffyrdd o weithredu pedwar diben y cwricwlwm i ddysgwyr trwy gynnal ystod eang o wersi traws-gwricwlaidd yn seiliedig ar gyd-destunau dilys o fywyd go iawn'.*

5.29 Cwblhaodd tri deg wyth o athrawon ychwanegol²⁷ eu cyfnod sefydlu ANG pan oeddent yn cael eu cyflogi mewn ysgolion fel rhan o'r Prosiect. Esboniodd athrawon ychwanegol eu bod yn aml wedi cael cymorth ychwanegol gan yr ysgol er mwyn cynnig cyfleoedd iddynt i roi sylw i'r elfennau angenrheidiol er mwyn cwblhau'r cyfnod sefydlu. Er enghraifft, galluogi'r athro i gynnal sawl gwers yn yr un dosbarth er mwyn cynllunio dilyniant o wersi. Yn ogystal, mae Athrawon Newydd Gymhwysu wedi cael budd o brofi strategaethau a pholisïau sy'n gyffredin ar draws y clwstwr, a chafwyd cyfleoedd mewn rhai achosion i athrawon ychwanegol rannu amser cynllunio, paratoi ac asesu gydag aelodau eraill o staff/athrawon ychwanegol eraill. Amlygodd athrawon hefyd yr her o fanteisio ar gymorth ANG a DPP wrth weithio fel athro cyflenwi dyddiol a'r anhawster o roi sylw i elfennau gofynnol y safonau athrawon wrth eu gwaith (megis cynllunio dilyniant o wersi neu drafod cynnydd disgyblion gyda rhieni), mewn cyferbyniad â'r cymorth a gawsant yn eu rôl fel athro ychwanegol.

Hwyluswyr a'r rhwystrau a brofwyd gan athrawon ychwanegol yn ystod y Prosiect

5.30 Roedd athrawon ychwanegol wedi cael budd o'r cymorth cyson gan fentor a gawsant ar gyfer eu blwyddyn sefydlu ANG, a'r cyfleoedd a hwyluswyd i gwblhau'r gwaith cynllunio gwersi/paratoi/gwerthuso gofynnol. Roedd arweinwyr clwstwr yn priodoli'r gwelliant yn ansawdd addysgu athrawon ychwanegol yn ystod y Prosiect i'r cymorth cyson a'r gweithgarwch monitro cynnydd a gawsant gan fentoriaid ysgol ac allanol. Nododd ysgolion clwstwr bod safon uwch y profiad ac ansawdd yr addysgu a ddarparwyd gan yr Athrawon Newydd Gymhwysu wedi gwella yn ystod y Prosiect, gyda chymorth gweithgarwch monitro cynnydd cyson gan fentoriaid ysgol ac allanol. Nododd un athro ychwanegol, yn ychwanegol i DPP, bod '*cymorth gan y mentor i gwblhau gwybodaeth ANG sy'n ofynnol gan EWC*'. Roedd yr athro yn teimlo'n gadarnhaol iawn am y profiad cyfan ac roedd yn ei chael hi'n anodd '*gweld anfantais*' ac eithrio dymuniad i gael eu dosbarth eu hunain i'w addysgu.

²⁷Sylwer bod y Prosiect peilot ar gyfer athrawon a oedd yn nhair blwyddyn gyntaf eu gyrfa, ac o ganlyniad, roedd rhai eisoes wedi cwblhau eu blwyddyn sefydlu ANG cyn cael eu cyflogi fel athro ychwanegol. Dim ond un athro oedd wedi methu cwblhau'r flwyddyn sefydlu, oherwydd cofnod presenoldeb gwael a'r diffyg cyfleoedd arsylwi o ganlyniad i hyn.

- 5.31 Darparwyd amser ANG a CPA digonol gan amlaf, ond ar brydiau, roedd hi'n anodd i glystyrau sicrhau llwyth gwaith priodol i Athrawon Newydd Gymhwysu er mwyn bodloni'r safonau sefydlu. Roedd diffyg addysgu cyson a rheolaidd mewn dosbarthiadau ar gyfer yr elfen baratoi/gwerthuso sy'n ofynnol er mwyn cwblhau eu cyfnod sefydlu ANG yn rhwystr weithiau. Roedd rhai athrawon ychwanegol wedi adrodd bod hyn yn rhwystr wrth iddynt geisio cwblhau eu blwyddyn sefydlu ANG wrth wneud gwaith cyflenwi, gan arwain at sefyllfa lle y mae Athrawon Newydd Gymhwysu yn cymryd mwy o amser i'w chwblhau o ganlyniad i'r diffyg cyfleoedd i gynllunio, paratoi a gwerthuso wrth weithio i asiantaethau cyflenwi yn gwneud gwaith cyflenwi dyddiol. Yn ogystal, adroddodd lleiafrif o athrawon y byddai wedi bod modd gwneud defnydd mwy effeithiol o'u hamser a'u sgiliau e.e. os oedd ganddynt arbenigedd mewn pwnc penodol. Nodwyd hefyd ei bod wedi bod yn her i rai ysgolion ddarparu cymorth ANG ychwanegol i'r athro ychwanegol (megis DPP ac amser ANG), a ystyriwyd yn alw ychwanegol ar ysgolion nad yw'n ofynnol fel arfer pan fyddant yn cyflogi athro cyflenwi o ddydd i ddydd: *'Er bod Athrawon Newydd Gymhwysu yn cael eu cynorthwyo mewn ysgolion gan fentor, mae'n anodd iawn rhoi'r amser y mae ei angen arnynt i'r ANG.'* (Arweinydd clwstwr)
- 5.32 Byddai modd cynnwys gofynion ANG a chymorth sefydlu yn y model e.e. cynllunio ar gyfer blociau addysgu wrth neilltuo amserlen cynorthwyo dosbarth/darparu ymyriad penodol/gweithio ar flaenoriaeth ysgol benodol, yr athro ychwanegol. Nododd un arweinydd clwstwr *'Mae'n bwysig bod rhyw elfen o gyfrifoldeb addysgu yn eu hamserlen, fel eu bod yn gallu bodloni gofynion ynghylch cynllunio, rhoi adborth i rieni ac ati, ar gyfer eu blwyddyn ANG.'*

Cymorth mentor

Cyfeiriodd un athro ychwanegol at rôl pwysig eu mentoriaid mewn perthynas â'u cyfleoedd, eu gweithgareddau a'u llwyddiant;

'Yn bersonol, rydw i wedi cael mentoriaid gwych trwy gydol y broses, y maent wastad wedi bod yn gefnogol, gan ganiatáu i mi ddatblygu'r meysydd yr oedd y ddau ohonom yn teimlo yr oedd angen eu datblygu, megis datblygu fy nefnydd o'r Gymraeg ym mhob gwers. Ymchwiliom i ffyrdd o wneud hyn gyda'n gilydd ac euthum ati i ddatblygu matiau Cymraeg a oedd yn nodi ymadroddion, a llwyddais i arsylwi athrawon eraill. Fe'm hanogwyd i fynd ar y cyrsiau ANG a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol, a mynychais y rhai yr oeddwn yn teimlo y byddent yn datblygu fy arfer ymhellach. Rydw i wedi cael dau fentor trwy gydol fy mlwyddyn ANG, un a oedd yn arbenigwr yn y cynradd ac un a oedd yn arbenigwr yn yr uwchradd. Mae hyn wedi rhoi gwybodaeth eang i mi ar draws cyfnodau.' (Athro ychwanegol)

- 5.33 Llwyddodd saith ar hugain o athrawon i sicrhau cyflogaeth barhaol wrth iddynt gyflawni'r rôl ychwanegol, ac roeddent yn nodi eu bod yn fwy hyderus o ganlyniad i'r profiad o addysgu ystod o grwpiau oedran mewn gwahanol ysgolion law yn llaw â'u DPP. O ganlyniad, bu'n rhaid i ysgolion ail-hysbysebu rôl yr athro ychwanegol. Fodd bynnag, roedd un pennaeth o'r farn bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol ac yn fesur o lwyddiant y Prosiect, gan ei fod yn dangos '*safon uchel addysgu yr athro ychwanegol, eu bod wedi symud ymlaen i swydd barhaol*'.
- 5.34 Roedd athrawon ychwanegol yn teimlo'n gadarnhaol am y cyflog a'r amodau sy'n gysylltiedig â rôl yr athro ychwanegol, ac roeddent yn croesawu'r gydnabyddiaeth o'u statws proffesiynol, a barnwyd bod cysondeb a sefydlogrwydd y rôl yn well na threfniant cyflenwi o ddydd i ddydd.
- 5.35 Mae'r athrawon ychwanegol wedi cael budd gan amrywiaeth y profiadau a ddarparwyd o fewn pob model cyflawni gwahanol. Mae rhan o'u rolau dydd-i-ddydd wedi cynnwys addysgu mewn ysgolion lluosog mewn dalgylchoedd amrywiol ar draws y clwstwr, ynghyd ag amrediad o wahanol ddosbarthiadau/pynciau yn yr ysgol, yn ogystal ag addysgu dosbarth penodol yn rheolaidd a phrofi manteision

gwaith cynllunio annibynnol, dilyniant, gwahaniaethu ac asesu. Yn ogystal, mae athrawon ychwanegol wedi cael profiad o weithredu polisïau ysgol megis strategaethau rheoli ymddygiad; gweithio a rhannu eu sgiliau/arfer gyda chydweithwyr, sydd wedi eu helpu i ddatblygu amryw ddulliau gweithredu, gan ddangos y ffaith eu bod yn llwyddo i gyflawni safonau athro proffesiynol hefyd.

- 5.36 Mae nifer o athrawon ychwanegol wedi addysgu ar draws cyfnodau; Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 2/Cyfnod Allweddol 3, ac maent wedi cael y cyfle i gynorthwyo pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, gan weld dilyniant rhwng grwpiau blwyddyn a phrofi gwahanol ddull gweithredu o ran addysgeg tuag at bynciau. Nododd un athro ychwanegol *'mae gweithio ar draws y cyfnodau allweddol yn cynnig budd aruthrol, y cyfle i addysgu ar draws pob cyfnod allweddol a deall yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol fabanod, iau ac uwchradd. Credaf ei fod yn gymaint o brofiad, a chredaf y dylai pob athro gael y cyfle i wybod hynny'.*

Y dyfodol i athrawon ychwanegol a chanlyniadau ychwanegol ar gyfer y Prosiect

- 5.37 Roedd rhai athrawon yn dymuno parhau i weithio yn eu hysgol gyfredol/arweiniol neu o fewn y clwstwr ac roeddent yn teimlo eu bod mewn gwell sefyllfa i ymgeisio am y swyddi hyn gan eu bod yn gwybod y dulliau gweithredu pedagogaid ar draws y clwstwr, yn ogystal â'r profiad a'r hyfforddiant a gafwyd i gefnogi eu cais. Nododd un athro ychwanegol ei bod yn bwriadu chwilio am rôl parhaol yn y clwstwr hwn neu mewn clwstwr arall, ac roedd yn teimlo y byddai mewn sefyllfa dda i sicrhau rôl parhaol gan ei bod yn gallu rhwydweithio gydag ysgolion eraill ac aelodau o staff eraill fel athro ychwanegol.'
- 5.38 Estynnwyd y contract clwstwr i 14 athro a byddant yn parhau yn y rôl tan 2020, ac roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys clystyrau a benderfynodd hunan-ariannu'r Prosiect am y drydedd flwyddyn ac eraill lle y maent wedi cael cymorth ariannol gan yr awdurdod lleol (mae Adran 6 yn trafod cynaliadwyedd y Prosiect yn y dyfodol mewn mwy o fanylder). Nododd athrawon eraill y byddent wedi croesawu'r cyfle i allu parhau yn y rôl. Er hyn, esboniodd rhai athrawon yr hoffent symud ymlaen i brofi addysgu yn eu dosbarth eu hunain ac roeddent yn teimlo eu bod wedi meithrin y sgiliau er mwyn gwneud hynny fel rhan o'r rôl ychwanegol, gan ychwanegu bod eu barn am addysgu yn fwy cadarnhaol ers iddynt ymgymryd â'r rôl.

Cyflogaeth

Adroddodd un arweinydd clwstwr am lwyddiant y Prosiect wrth i bedwar athro ychwanegol gwblhau eu proses sefydlu ANG, a'r cyfleoedd cyflogaeth a sicrhawyd gan yr athrawon ychwanegol.

'Mae'r athro ychwanegol uwchradd wedi sicrhau swydd am flwyddyn yn yr ysgol. Mae athro ychwanegol arall wedi cael swydd mewn ysgol arall ac mae un arall wedi cael swydd mewn prosiect ymgysylltu cymunedol [trydydd sector], a gynorthwywyd gan eu profiad o weithio ar draws y clwstwr. Dim ond un athro ychwanegol sydd heb sicrhau rôl newydd eto. Maent wedi cael budd trwy wneud gwaith rheolaidd yn yr ystafell ddosbarth, cael profiad o ymgysylltu â rhieni, cymryd rhan mewn teithiau rheolaidd, manteisio ar DPP perthnasol.'
(Arweinydd clwstwr)

- 5.39 Mae datblygu perthnasoedd cadarnhaol wedi bod yn ganlyniad ychwanegol y Prosiect, wrth i athrawon ychwanegol nodi bod y gwaith rheolaidd mewn ysgolion wedi eu galluogi i *'gael y cyfle i feithrin perthynas'* gyda'r ysgol a theimlo'n rhan o dîm yr ysgol, sy'n cynnwys athrawon a disgyblion. Roedd athrawon wedi cael cyfleoedd yn ystod amser CPA/ANG i gydweithio gydag athrawon ychwanegol neu Athrawon Newydd Gymhwys eraill, gan rannu parhad o ran dulliau gweithredu ac arfer da a brofwyd ar draws y clwstwr. *'Gan bod yr athrawon ychwanegol wedi'u lleoli'n barhaol yn y clwstwr, maent wedi gallu meithrin dealltwriaeth o feysydd gwella allweddol yn y [clwstwr], polisïau ac amcanion ar lefel ysgol, maent wedi cael profiad o adolygiadau ar lefel ysgol, maent wedi cael profiad o ymweliad gan Estyn ac maent wedi cael budd gan DPP priodol.'* (Arweinydd clwstwr)
- 5.40 Roedd cysondeb y rôl wedi galluogi athrawon ychwanegol i deimlo'n rhan o gymuned ysgol, roedd wedi cydnabod eu statws proffesiynol fel athro ac roeddent yn teimlo eu bod yn aelod a werthfawrogydd o dîm ehangach y staff, y disgyblion, y rhieni a'r gymuned ehangach. Esboniodd un arweinydd clwstwr *'mae hi'n sylwi sut y mae parch y plant tuag ati wedi gwella yn yr ysgolion clwstwr gan eu bod yn ei hadnabod, felly mae hi'n teimlo bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant sydd ag anawsterau ymddygiadol ac arni hi yn bersonol. Yn ogystal, mae aelodau o staff fel*

Cynorthwywyr Cymorth Dysgu wedi dweud pa mor falch ydynt pan fydd hi wedi dychwelyd i'r dosbarth – mae'n teimlo fel pe bai wedi cael ei derbyn fel aelod o dîm yr ysgol.'

Arbedion effeithlonrwydd a manteision ariannol

Prif ganfyddiadau

- Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y Prosiect wedi cynorthwyo arbedion effeithlonrwydd ym maes rheoli cyflenwi.
- Roedd defnyddio athrawon ychwanegol wedi arwain at lai o alwadau ar amser cydweithwyr.
- Roedd cyllid ar ffurf grant o £2.7 miliwn ar gael, a hawliwyd gwerth £1,296,294 ar ffurf grant (Tachwedd 2017 – Mawrth 2019).
- Mae athrawon a gyflogwyd trwy'r Prosiect wedi cyflenwi yn ystod ychydig dan 30 y cant o'r holl amser y bu athrawon yn absennol ar draws y clystyrau a oedd wedi cymryd rhan: 22,242 oedd cyfanswm y diwrnodau yr oedd gofyn cael gwasanaeth cyflenwi mewn ysgolion clwstwr, a chyflenwyd 6,539 o'r diwrnodau hyn gan athrawon ychwanegol.
- Ceir anghysondebau a bylchau yn y data a ddarparwyd gan ysgolion.
- Law yn llaw â'r costau a arbedwyd, mae'r Prosiect peilot wedi ychwanegu gwerth i ysgolion clwstwr, y mae'n heriol ei fesur; gan ganiatáu iddynt ryddhau staff i weithio ar flaenoriaethau gwella ysgol.

- 5.41 Ceir ychydig dystiolaeth bod y Prosiect wedi cynorthwyo effeithlonrwydd ym maes rheoli cyflenwi. Bu modd i glystyrau sy'n defnyddio asiantaethau cyflenwi allanol er mwyn bodloni rhywfaint o'u hanghenion cyflenwi fyfyrion am y manteision o ddefnyddio athrawon ychwanegol rheolaidd o ran amser ac adnoddau. Adroddodd ysgolion clwstwr bod defnyddio athrawon ychwanegol wedi lleihau'r amser yr oedd eu staff rheolaidd yn ei dreulio yn cyflawni tasgau gweinyddol. Er enghraifft, byddai angen i staff ymrwymo amser i gyflwyno athrawon cyflenwi allanol i amgylchedd yr ysgol fel arfer (gan gynnwys camau sylfaenol megis rhoi cyfarwyddiadau) ac esbonio polisiau'r ysgol (megis polisiau ymddygiad), ond mae athrawon ychwanegol yn gyfarwydd â'r polisiau hyn. Fel arfer, byddai angen i athrawon ymrwymo amser i baratoi gwaith i'w adael i athrawon cyflenwi allanol ei ddefnyddio

gyda'u dosbarthiadau (gan arwain at weithgareddau llai ystyrion yn cael eu harwain gan yr athrawon cyflenwi o bryd i'w gilydd), ond mae athrawon ychwanegol yn gyfarwydd â chynlluniau gwersi a/neu'n gallu cyflwyno eu gwersi eu hunain.

- 5.42 Un dull er mwyn nodi pa mor gost-effeithlon yw'r Prosiect yw cymharu cyfanswm y grant gan Lywodraeth Cymru a hawliwyd gan glystyrau hyd yn hyn, gydag amcangyfrifon o werth ariannol nifer y diwrnodau cyflenwi a gyflawnwyd gan athrawon ychwanegol. Roedd cyfanswm o £2.7m ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect peilot hwn; mae'r union gyfanswm yn debygol o fod yn is erbyn diwedd y Prosiect, yn rhannol oherwydd na fu modd i'r Prosiect gychwyn yn rhan fwyaf y clystyrau tan ail dymor y flwyddyn gyntaf, o ganlyniad i'r penderfyniad i beidio amharu ar y farchnad swyddi arferol. Pan gyfrifwyd swm y grant ar gyfer y Prosiect, fe'i seiliwyd ar wariant rhagamcanol a oedd yn cymryd y byddai gan bob athro a fyddai'n cael eu recriwtio dair blynedd o brofiad addysgu, a fyddai'n golygu y byddent yn uwch ar y raddfa gyflog i athrawon, ond mewn gwirionedd, penodwyd nifer o'u cwrs hyfforddiant athrawon yn uniongyrchol, ac fe'u talwyd ar raddfa is. Yn ogystal, mae rhai clystyrau wedi wynebu sialensiau wrth geisio recriwtio nifer ddisgwyliedig yr athrawon ychwanegol.
- 5.43 Mae Tabl 5.1 yn cynnig trosolwg o gymhariaeth y gost o ddarparu'r gwasanaeth cyflenwi o ddechrau'r Prosiect tan ddiwedd fis Mawrth 2019.

Tabl 5.1. Trosolwg o'r gymhariaeth rhwng y costau o ddarparu gwasanaeth cyflenwi

Cyfanswm y grant a oedd ar gael	£2,700,000
Swm a hawliwyd (Tachwedd 2017- Mawrth 2019)	£1,296,294
Cyfanswm y diwrnodau absenoldeb yr oedd gofyn cael gwasanaeth cyflenwi ar eu cyfer	22,242
Diwrnodau a gyflenwyd gan athrawon ychwanegol	6,539
Cost amcangyfrifedig defnyddio asiantaethau cyflenwi allanol i gyflenwi yn ystod yr absenoldebau a gyflenwyd gan athrawon ychwanegol y Prosiect	£902,382 – £1,078,935 ²⁸

Mae'r gymhariaeth hon yn awgrymu y defnyddiwyd y cyllid ar ffurf grant mewn ffordd gymharol effeithiol wrth dalu am wasanaeth cyflenwi, ond y bydd gorbenion eraill hefyd, megis y gofyniad ynghylch amser heb fod yn addysgu (CPA), sy'n gysylltiedig â chyflogi athro ychwanegol. Caiff y ffigurau hyn eu diweddarau ar gyfer yr adroddiad gwerthuso dilynol i'w baratoi yn 2020, gan ddefnyddio ffigurau a ddarparwyd gan glystyrau yn ffurflen hawlio 6 (Ebrill – Awst 2019), nad ydynt oll wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru adeg ysgrifennu hwn.

- 5.44 Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn cynnig y darlun llawn o ran y ffordd y neilltuwyd athrawon ychwanegol yn ystod y Prosiect. Yn gyntaf, ceir rhai gwendidau a bylchau yn y data a ddarparwyd mewn ffurflenni hawlio clystyrau; er enghraifft, mae rhai clystyrau wedi dehongli'r gofynion mewn cwestiynau penodol ychydig yn wahanol, gan arwain at rywfaint o anghysondeb yn y data. Yn ail, ni fyddai pob ysgol clwstwr wedi bod yn talu am athrawon asiantaethau cyflenwi allanol i ddiwallu eu hanghenion cyflenwi, a byddent yn manteisio ar ddewisiadau cyflenwi mewnol yn lle hynny (megis CALU). Yn drydydd, mae'r prosiect wedi cynnig gwerth ychwanegol i

²⁸Mae'r ffigwr is yn seiliedig ar y gyfradd ddyddiol gyfartalog y bydd clystyrau'n ei thalu am athrawon o asiantaethau cyflenwi, ar sail gwybodaeth a ddarparwyd yn ffurflenni hawlio y Prosiect - £138. Mae'r ffigwr uwch yn seiliedig ar gyfradd Llywodraeth Cymru a delir i ryddhau athrawon ar gyfer Cynllun Sabothol yr Iaith Gymraeg, rhaglen hyfforddiant genedlaethol i athrawon sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg - £165.

ysgolion clwstwr trwy ganiatáu iddynt ryddhau staff i weithio ar flaenoriaethau gwella ysgol; byddai rhyddhau'r staff hyn mor rheolaidd wedi bod yn anodd neu'n amhosibl fel arall, heb y cyllid i ariannu gwasanaeth cyflenwi. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu hefyd bod cyfyngiadau i unrhyw gasgliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwerth cyffredinol gwasanaeth cyflenwi a ddarperir gan yr athrawon ychwanegol o'i gymharu â mewnbwn ariannol clwstwr a Llywodraeth Cymru, a systemau cyflenwi blaenorol. Mae hyn yn golygu bod y Prosiect wedi caniatáu i ysgolion clwstwr gael budd gan wasanaeth cyflenwi ychwanegol na fyddent wedi manteisio arno fel arall o reidrwydd heb y prosiect; felly, nid yw eu defnydd o athrawon ychwanegol yn adlewyrchu gofynion cyflenwi arferol o reidrwydd. Mewn geiriau eraill, mae'r athrawon ychwanegol wedi darparu capasiti ychwanegol i ysgolion gyflawni gweithgareddau y maent yn dymuno'u cyflawni. Rhoddodd un arweinydd clwstwr grynoded o'r gwerth ychwanegol hwn yn ei ffurflen hawlio ar gyfer y Prosiect:

'Yn ei hanfod, gan bod [yr athro ychwanegol] wedi gweithio am 71 diwrnod ar draws y ddwy ysgol yn cyflenwi ar gyfer staff absennol, mae'r cyfanswm...yn cyfateb â 71 diwrnod wedi'i luosi gyda'r gyfradd ddyddiol, £150, gan bod y ddwy ysgol yn defnyddio asiantaeth recriwtio sy'n codi'r gyfradd ddyddiol. Fodd bynnag, nid oes un o'r ysgolion wedi cael unrhyw absenoldeb oherwydd salwch ac mae'n amheus a fyddai'r gweithgareddau y mae'r [athro ychwanegol] wedi cyflenwi ar eu cyfer er mwyn i'r staff eu cyflawni, er eu bod yn hynod o werthfawr, wedi digwydd yn y fath ffordd heb y prosiect o ganlyniad i gyllidebau tynn. Yn hanesyddol, mae ysgolion wedi canfod ffyrdd eraill o gyflenwi ar gyfer staff neu, bu disgwyliad bod staff yn ymgysylltu â'r gweithgareddau hyn ar ddiwedd y diwrnod addysgu. Bydd hyn yn tynnu sylw oddi ar ansawdd y gwaith, a nodwyd hyn mewn adroddiadau blaenorol.' (Ffurflen hawlio clwstwr)

- 5.45 Wrth gloi, mae'n bwysig nodi bod y Prosiect wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau o ran addysgu a dysgu na ellir eu mesur yn hawdd ond y maent, er hyn, yn bwysig i'w cadw mewn cof. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau yn ansawdd y gweithlu addysgu cyflenwi, a gaiff ei gydnabod gan arweinwyr clwstwr a phenaethiaid ysgolion clwstwr eraill fel un o brif ganlyniadau'r Prosiect. Mae'r Prosiect wedi arwain at fwy o gapasiti i gynnig darpariaeth i nifer o grwpiau a

dargedwyd, gan gynnwys dysgwyr sydd ag ADY, gan ddarparu tystiolaeth y gallai dulliau gweithredu wedi'u targedu yn y dyfodol arwain at ganlyniadau tebyg. Fel y nodwyd mewn adran gynharach o'r adroddiad hwn, mae gweithgarwch Prosiect wedi gwella'r ddarpariaeth ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardal un awdurdod lleol, gan arwain at gadw dysgwyr mewn addysg prif ffrwd o ganlyniad, yn ôl cynrychiolwyr clwstwr. Ceir arbedion ariannol sylweddol i'w sicrhau trwy gyfrwng canlyniadau o'r fath. Nodwyd effaith y Prosiect ar lwyth gwaith a morâl athrawon hefyd, ac er ei bod yn amhosibl mesur hyn hefyd, mae'n dangos effaith ehangach y Prosiect.

6. Cynaliadwyedd

Prif ganfyddiadau

- Byddai'r gwaith o reoli a gweinyddu clystyrau ysgolion wedi bod yn gynaliadwy yn y tymor hir pe bai'r cyllid wedi parhau.
- Ni fu'r gwaith o weinyddu'r Prosiect yn rhy feichus neu nid oedd wedi cymryd gormod o amser.
- Mae tua un o bob tri o'r clystyrau yn parhau neu'n ystyried parhau rhai elfennau o'u prosiect yn y drydedd flwyddyn.
- Adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol am eu siom sylweddol oherwydd na allent barhau gyda'r Prosiect.
- Mae ysgolion clwstwr arweiniol nad ydynt yn parhau gyda'u prosiectau yn debygol o ddychwelyd i'w modelau cyflenwi blaenorol yn y tymor byr.
- Yn y tymor hir, mynegwyd rhywfaint o barodrwydd i ailystyried cynnal prosiect cyflenwi tebyg.

- 6.1 Adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol y byddai'r gwaith o reoli a gweinyddu eu prosiect wedi bod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Ni fu'r gwaith o weinyddu'r prosiect yn rhy feichus neu nid oedd wedi cymryd gormod o amser clystyrau, ar ôl iddynt bennu prosesau priodol. Fel y trafodwyd yn adran 4, roedd clystyrau wedi mabwysiadu amrywiaeth o wahanol fodelau er mwyn rheoli a defnyddio athrawon ychwanegol, ac ar y cyfan, adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol bod y model gweinyddol terfynol a fabwysiadwyd yn addas iawn i'w hanghenion.
- 6.2 Mae tua un o bob tri clwstwr yn parhau neu'n ystyried parhau gyda rhai o elfennau eu prosiect am y drydedd flwyddyn, ar ôl i gyllid Llywodraeth Cymru ddod i ben.
- Adroddodd un clwstwr, oherwydd y cychwynnwyd eu prosiect ychydig yn hwyr ac mae'r awdurdod lleol yn rhoi cefnogaeth ariannol i'r prosiect hefyd, eu bod yn parhau'r prosiect am ddwy flynedd gyfan, gan barhau yn 2020. Gweler Astudiaeth achos 1 am ddisgrifiad o'r prosiect hwn.
 - Adroddodd un ysgol clwstwr arweiniol mai ei nod fydd defnyddio athrawon ychwanegol yn lle gwasanaeth cyflenwi mewnol neu allanol traddodiadol,

ond dim ond yng nghyfnod cynradd yr ysgol. Nid oedd hyn wedi cael ei gadarnhau eto.

- Mae un clwstwr yn parhau yn y drydedd flwyddyn gan bod y clwstwr yn ystyried y prosiect fel Prosiect tair blynedd; felly, roedd pob ysgol yn cydnabod bod gofyn iddynt barhau am flwyddyn arall ar ôl i gyllid Llywodraeth Cymru ddod i ben.
- Bydd clwstwr arall yn ariannu'r prosiect am ei drydedd blwyddyn. Mae ysgol arweiniol y clwstwr yn ehangu ac maent yn gobeithio y bydd yr athro ychwanegol yn aros yn yr ysgol ar ôl i'r prosiect orffen. Disgwylir yr un patrwm neilltuo ar gyfer y drydedd flwyddyn.
- Mae un awdurdod lleol wedi newid cyllidebau ysgol er mwyn parhau i gyflogi athro a secondiwyd (a ryddhawyd trwy'r Prosiect) yn ystod y drydedd flwyddyn.

Enghraifft o benderfyniad

clwstwr i barhau – Roedd un clwstwr yn bwriadu cyfuno grŵp o tua bedwar neu bum aelod o staff ar draws yr ysgolion (gan gynnwys yr athro ychwanegol a sicrhodd swydd yn yr ysgol uwchradd a CALU). Caiff y model clwstwr cyflenwi ei ailadrodd. Y cynllun gwreiddiol oedd parhau'r prosiect gyda'r un model yn union (cyflogi mwy o Athrawon Newydd Gymhwys, eu rhannu ar draws yr ysgolion, talu'r costau rhwng yr ysgolion), ond mae cyllidebau sy'n lleihau wedi atal hyn.

Bydd yr ysgolion yn parhau i ddefnyddio asiantaethau cyflenwi, ond mae'r prosiect wedi peri i'r ysgolion sylweddoli bod potensial iddynt drafod gyda grŵp o staff (pedwar/pump) o'r asiantaethau, y byddent yn adnabod y clwstwr yn dda.

- 6.3 Nid yw'r clystyrau sy'n weddill yn bwriadu parhau gyda'r prosiect yn ystod y drydedd flwyddyn. Cynhaliodd clystyrau drafodaethau am y posibilrwydd o barhau ac adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol ddymuniad clir ymhlith bron pob ysgol i barhau pe byddai modd. Gan ystyried manteision tybiedig y prosiect (er enghraifft ar addysgu a dysgu) fel y trafodwyd yn adran 5, adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol am eu siom mawr nad oeddent yn gallu parhau gyda'u prosiect.

6.4 Nododd ysgolion clwstwr rai prif rwystrau a oedd yn atal cynaliadwyedd:

- Y costau uwch sy'n gysylltiedig â chyflogi athrawon ychwanegol parhaol mewn swydd ar gyflog o'i chymharu â'r costau ad hoc o recriwtio athrawon cyflenwi trwy gyfrwng asiantaethau cyflenwi allanol. Er bod ysgolion clwstwr yn taeru bod manteision clir i addysgu a dysgu o gyflogi athrawon ychwanegol, roedd y gwahaniaeth o ran y gost yn ddigon sylweddol i berswadio clystyrau i beidio parhau gyda'u prosiect.
- Y costau uwch sy'n gysylltiedig â chyflogi athrawon ychwanegol parhaol o'i chymharu â'r costau cyfyngedig o ddefnyddio gwasanaeth cyflenwi mewnol (megis CALU, goruchwylwyr llanw presennol a chynlluniau yswiriant cyflenwi). Roedd ysgolion cynradd llai yn arbennig yn tueddu i adrodd nad oes ganddynt unrhyw gyllideb, neu gyllideb fach iawn, ar gyfer darpariaeth gyflenwi allanol, sy'n golygu nad oes ganddynt unrhyw gyllideb, neu fawr iawn o gyllideb i barhau gyda'r prosiect hwn.
- Y ffaith na ellir arbed costau mewn hinsawdd o ddiffyg ariannol. Er bod ysgolion clwstwr arweiniol yn cydnabod bod y Prosiect wedi arwain at arbedion mewn clystyrau unigol trwy ddarparu cyllid allanol ar gyfer costau cyflenwi, mae ysgolion yn aml yn wynebu diffyg ariannol; felly, ni chaiff arbedion eu sicrhau mewn gwirionedd ac ni ellir eu defnyddio i ariannu'r Prosiect yn y dyfodol.
- Y potensial o wastraffu adnoddau sy'n gysylltiedig gyda chyflogi athrawon ychwanegol parhaol o'i gymharu â manteisio ar wasanaeth cyflenwi mewnol neu allanol arall yn ôl yr angen. Adroddodd ysgolion clwstwr y byddai'n risg ariannol cyflogi aelod o staff amser llawn, pan allai'r anghenion cyflenwi fod yn arbennig o isel yn ystod y flwyddyn academiaidd honno.
- Yn ogystal, fel y trafodwyd yn gynharach, mewn sawl achos, mae clystyrau wedi gallu defnyddio gwasanaeth yr athro ychwanegol er mwyn rhyddhau staff na fyddent wedi gallu eu rhyddhau fel arfer. Ar ôl i gyllid Llywodraeth Cymru ddod i ben, bydd angen i'r rhan fwyaf o'r clystyrau hyn fynd yn ôl i'r trefniant o ddefnyddio gwasanaeth cyflenwi yn llai aml.

Enghraifft o benderfyniad clwstwr i beidio parhau

Er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol iawn sy'n deillio o'r Prosiect, nid yw'r clwstwr yn bwriadu parhau i gyflogi athro ychwanegol ar ôl i gyllid Llywodraeth Cymru ddod i ben. Mae'r clwstwr o'r farn bod hyn yn drueni, ond mae nifer o'r ysgolion a fu'n cymryd rhan yn wynebu diffygion ariannol. Mae ysgol arweiniol y clwstwr eisoes yn cyflogi CALU sy'n gymwys i wneud gwaith cyflenwi ac mae yswiriant ar gael. O'r herwydd, ni cheir cyllideb ar gyfer asiantaethau cyflenwi allanol y byddai modd ei neilltuo i recriwtio athrawon ychwanegol. Mae ysgolion clwstwr yn teimlo'n ansicr ynghylch sut y gallent barhau i gynnal yr un lefel o ran cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn ar flaenoriaethau gwella ysgol o ganlyniad i'r amser di-gyswllt a neilltuwyd i staff.

'Rydym yn teimlo'n ofnadwy na all y prosiect barhau...rydym yn siomedig iawn gan ein bod yn teimlo ein bod yn colli aelod o staff, y gallu i gadw safonau mor uchel a'r gallu i fonitro mor rheolaidd ag yr ydym wedi bod yn ei wneud.'
(Arweinydd clwstwr)

- 6.5 Adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol nad ydynt yn parhau gyda'u prosiectau am y drydedd flwyddyn eu bod yn debygol o fynd yn ôl i'w modelau cyflenwi blaenorol yn y tymor byr. Mae hyn yn cynnwys mynd yn ôl i ddefnyddio gwasanaeth cyflenwi mewnol (megis CALU a goruchwylwyr llanw y maent eisoes yn cael eu cyflogi i ddarparu gwasanaeth cyflenwi) a gwasanaeth cyflenwi allanol (megis mynd yn ôl i ddefnyddio'r asiantaethau cyflenwi arferol). Er hyn, bu'r Prosiect yn gyfle i'r ysgolion a fu'n cymryd rhan i ystyried datrysiadau amgen i ddelio ag absenoldebau athrawon, ac i ddefnyddio eu cyllidebau mewn ffordd wahanol o bosibl.
- 6.6 Yn y tymor hir, mynegwyd rhywfaint o barodrwydd gan glystyrau i ailystyried cynnal prosiect cyflenwi tebyg yn eu clwstwr, ond dim ond dan amgylchiadau arbennig. Mae enghreifftiau o'r amgylchiadau lle y byddai clystyrau yn ailystyried cynnal prosiect arall efallai yn cynnwys: gostyngiad o ran y diffyg ariannol y mae ysgolion yn ei wynebu ar hyn o bryd; newidiadau i gyflog ac amodau athrawon a fyddai'n ystyried rôl newydd yr athro ychwanegol; cyfleoedd i sefydlu modelau clwstwr

cyflenwi y telir amdano sy'n debyg i gronfeydd cyflenwi presennol ar lefel awdurdod lleol.

7. Casgliadau a materion i'w hystyried yn y dyfodol

Casgliadau

7.1 Mae'r gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion wedi archwilio'r manteision a'r sialensiau sy'n gysylltiedig gyda chynllun, gweithrediad a chanlyniadau'r Prosiect. Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif gasgliadau ynghylch llwyddiant y Prosiect wrth;

- weithredu trefniadau amgen ac arloesol sy'n rhoi sylw i gyflenwi yn ystod absenoldebau mewn ysgolion (absenoldebau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio);
- cynorthwyo athrawon ANG sy'n cyflawni rolau cyflenwi yn y tymor byr, o ran eu datblygiad proffesiynol a'u cadw;
- cynorthwyo arbedion effeithlonrwydd, yn dangos tystiolaeth o werth ychwanegol ac arbedion posibl o ran y costau yn erbyn yr ysgol;
- hyrwyddo arfer gorau ym maes cydweithio a chydweithredu ar draws clystyrau ysgolion.

Gweithredu trefniadau amgen ac arloesol er mwyn rhoi sylw i gyflenwi yn ystod absenoldebau mewn ysgolion

7.2 Mae'r Prosiect peilot wedi llwyddo i gynllunio a gweithredu amrediad o drefniadau amgen ac arloesol er mwyn rhoi sylw i gyflenwi yn ystod absenoldebau athrawon. Roedd nifer yr ysgolion a'r athrawon ychwanegol ym mhob clwstwr yn amrywio o 1 i 10; a gwelwyd strwythurau amrywiol yn cael eu creu a gwahanol fathau o ysgolion yn ymgymryd â rôl arweinydd y clwstwr.

7.3 Defnyddiwyd gwahanol ddulliau er mwyn rheoli ac amserlennu yr athrawon ychwanegol; roedd y rhain yn amrywio o flociau amser penodol ym mhob ysgol (e.e. hanner tymor neu dymor cyfan) i amserlen hollol hyblyg yn unol â'r galw gan ysgolion am wasanaeth cyflenwi. Roedd y cryfderau a'r sialensiau a adroddwyd ar gyfer pob dull gweithredu yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i feithrin perthnasoedd gwaith gyda staff a dysgwyr, y gallu i ddarparu gweithdrefnau cyson mewn ysgolion, y gallu i ryddhau staff er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r ysgol, cyfleoedd i athrawon

ychwanegol gwblhau gofynion ANG a hyfforddiant arall, a'r faich weinyddol sy'n ofynnol er mwyn neilltuo a monitro'r Prosiect. Mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd wedi cael eu hymwreiddio ar gyfer yr athrawon ychwanegol yn cyd-fynd â gofynion y Fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol newydd ar gyfer ymsefydlu a dysgu proffesiynol.

- 7.4 O ganlyniad i'r gwahanol ddulliau gweithredu wrth amserlennu a defnyddio'r capasiti ychwanegol, neilltuwyd athrawon ychwanegol i gyflawni amrediad o dasgau; gan gynnwys cyflenwi mewn argyfwng, cyflenwi rheolaidd er mwyn darparu ar gyfer CPA; a allai gynnwys darparu prosiectau cyson ar draws y clwstwr; gosod gwersi dosbarth/pwnc rheolaidd a gwaith prosiect pontio. Defnyddiwyd calendrau ar-lein i archebu a monitro trefniadau dyrannu athrawon ychwanegol. Defnyddiwyd rhai o'r dulliau gweithredu hyn ar draws clystyrau er mwyn cynorthwyo gweithgarwch cynllunio a darparu ar y cyd. Roedd yr ymreolaeth a'r hyblygrwydd o ganlyniad i'r Prosiect yn golygu bod clystyrau'n gallu asesu effeithiolrwydd y model cynllunio a darparu a ddefnyddiwyd ganddynt, ac roedd nifer fach wedi addasu eu model am yr ail flwyddyn ar ôl cael adborth gan benaethiaid ysgolion clwstwr a'u hathrawon ychwanegol.

Y cymorth ar gyfer athrawon ANG wrth iddynt gyflawni rolau cyflenwi tymor byr o ran eu datblygiad proffesiynol a'u cadw

- 7.5 Mae'r Prosiect peilot wedi cynorthwyo amrediad o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i athrawon ychwanegol, gan ddarparu hyfforddiant er mwyn rhoi sylw i ofynion athrawon unigol a thargedau datblygu ysgol megis addysgeg / dulliau gweithredu addysgu / gweithredu'r cwricwlwm newydd. Yn ogystal, roedd athrawon ychwanegol wedi cael budd wrth i'w sgiliau, eu cymhwysedd a'u hyder ddatblygu, yn enwedig trwy gael profiad o addysgu ar draws gwahanol gyfnodau mewn amrediad o ysgolion. Roeddent yn teimlo'n gadarnhaol am y cyflog a'r amodau a oedd yn gysylltiedig â'r rôl hefyd, ac roeddent yn croesawu'r gydnabyddiaeth o'u statws proffesiynol, a barnwyd bod cysondeb a sefydlogrwydd y rôl yn well nag addysgu cyflenwi o ddydd i ddydd.

- 7.6 Mae'r Prosiect peilot wedi cynorthwyo nifer o athrawon ychwanegol i gwblhau eu cyfnod ymsefydlu ANG yn llwyddiannus ac roeddent yn aml yn cael cymorth ychwanegol er mwyn cynnig cyfleoedd iddynt roi sylw i'r elfennau gofynnol a oedd yn angenrheidiol. Amlygodd rhai athrawon ychwanegol yr her a gawsant wrth geisio manteisio ar DPP a chymorth ANG pan fuont yn gweithio fel athro cyflenwi dyddiol yn flaenorol, a'r anhawster wrth roi sylw i elfennau gofynnol y safonau athrawon wrth eu gwaith, mewn cyferbyniad â'r cymorth a gawsant yn eu rôl fel athro ychwanegol. Roedd y cymorth cyson a gafodd athrawon ychwanegol gan fentor wedi helpu eu cynnydd hefyd. Fodd bynnag, i rai athrawon ychwanegol, gwelwyd diffyg addysgu rheolaidd mewn dosbarthiadau er mwyn caniatáu ar gyfer yr elfen baratoi/ gwerthuso sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r cyfnod ymsefydlu ANG ac roedd hyn yn rhwystr ar brydiau.
- 7.7 Mae'r Prosiect peilot wedi cynorthwyo sawl athro i sicrhau cyflogaeth barhaol wrth iddynt gyflawni'r rôl ychwanegol, ac roedd rhai yn dymuno parhau i gyflawni eu rôl cyfredol neu weithio o fewn un o'u hysgolion clwstwr. Roeddent o'r farn eu bod mewn sefyllfa well nawr i ymgeisio am y swyddi hyn, o wybod y dulliau gweithredu pedagogaid ar draws y clwstwr, yn ogystal â'r profiad a'r hyfforddiant a gawsant. I athrawon ychwanegol eraill, byddent yn parhau i gyflawni'r rôl tan 2020, a nododd athrawon eraill y byddent wedi croesawu'r cyfle i allu parhau yn y rôl, ac adroddodd eraill bod y rôl wedi eu paratoi'n dda i symud ymlaen i gymryd eu dosbarth eu hunain i'w addysgu. Mae hyn yn dangos y potensial i brosiectau tebyg yn y dyfodol er mwyn gwella'r arfer o gadw staff addysgu. Mae'r canlyniad ychwanegol a adroddwyd yn cyd-fynd â hyn, sef bod yr athrawon ychwanegol wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Arbedion effeithlonrwydd, tystiolaeth o werth ychwanegol ac arbedion ariannol posibl

- 7.8 Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y Prosiect peilot wedi cynorthwyo effeithlonrwydd wrth reoli gwaith cyflenwi. Bu modd i glystyrau sy'n defnyddio asiantaethau cyflenwi allanol fel arfer i fodloni rhywfaint o'u hanghenion cyflenwi, fyfyrion am y manteision o ddefnyddio athrawon ychwanegol rheolaidd o ran amser ac adnoddau. Fel arfer, byddai angen i athrawon ymrwymo amser i baratoi gwaith i'w adael er mwyn i

athrawon cyflenwi allanol ei ddefnyddio gyda'u dosbarthiadau, ond roedd athrawon ychwanegol yn gyfarwydd â chynlluniau gwersi a/neu gallent ddarparu eu gwersi eu hunain. Adroddodd ysgolion clwstwr bod defnyddio athrawon ychwanegol yn lleihau'r amser y byddai eu staff rheolaidd yn ei dreulio yn cyflawni tasgau gweinyddol.

- 7.9 Er bod £2.7 miliwn ar gael ar gyfer y Prosiect hwn; mae'r cyfanswm go iawn yn debygol o fod yn is na hyn erbyn diwedd y Prosiect, ac mae hyn rhannol o ganlyniad i'r ffaith na fu modd cychwyn y Prosiect yn rhan fwyaf y clystyrau tan yr ail dymor yn ystod y flwyddyn gyntaf. Y swm a hawliwyd (Tachwedd 2017 – Mawrth 2019) gan glystyrau oedd £1,296,294; cyfanswm y diwrnodau absenoldeb yr oedd gofyn trefnu gwasanaeth cyflenwi ar eu cyfer yn ystod y cyfnod hwn oedd 22,242, ac roedd athrawon ychwanegol wedi cyflenwi yn ystod 6,539 o'r rhain. Mae cost amcangyfrifedig defnyddio asiantaethau cyflenwi allanol ar gyfer y diwrnodau ychwanegol hyn rhwng £902,382 a £1,078,935. Mae hyn yn awgrymu y defnyddiwyd y cyllid ar ffurf grant mewn ffordd gymharol effeithiol, ond y bydd gorbenion eraill sy'n gysylltiedig â chyflogi athro ychwanegol, megis yr amser y mae gofyn i'r athrawon ychwanegol ei gael i gwblhau eu gofynion hyfforddiant ymsefydlu a DPP.
- 7.10 Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnig portread cywir o'r ffordd y neilltuwyd athrawon ychwanegol o reidrwydd. Yn gyntaf, gwelwyd rhai gwendidau a bylchau yn y data a ddarparwyd mewn ffurflenni hawlio clystyrau, a rhai anghysondebau yn y data o ganlyniad i'r gwahanol ddehongliadau o'r gofynion a welwyd ymhlith clystyrau. Yn ail, ni fyddai pob ysgol glwstwr wedi talu am athrawon gan asiantaethau cyflenwi allanol i fodloni eu gofynion cyflenwi, ond yn hytrach, byddent wedi defnyddio dewisiadau cyflenwi mewnol megis CALU. Yn drydydd, mae'r Prosiect wedi cynnig gwerth ychwanegol i ysgolion clwstwr trwy ganiatáu iddynt ryddhau staff i weithio ar flaenoriaethau gwella ysgol; byddai rhyddhau'r staff hyn mewn ffordd mor reolaidd wedi bod yn anodd neu'n amhosibl fel arall, heb yr arian i dalu am wasanaeth cyflenwi.
- 7.11 O ganlyniad, mae hyn yn golygu bod cyfyngiadau i unrhyw gasgliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwerth cyffredinol y gwasanaeth cyflenwi a ddarparwyd

gan yr athrawon ychwanegol o'i gymharu â mewnbwn ariannol Llywodraeth Cymru a'r clwstwr, a systemau cyflenwi blaenorol. Mae'r Prosiect wedi caniatáu i ysgolion clwstwr gael budd gan wasanaeth cyflenwi ychwanegol na fyddent wedi manteisio arno fel arall o reidrwydd, heb y Prosiect; felly, nid yw eu defnydd o athrawon ychwanegol yn adlewyrchu gofynion cyflenwi arferol. Mewn geiriau eraill, mae'r athrawon ychwanegol wedi darparu capasiti ychwanegol i ysgolion gyflawni gweithgareddau dymunol.

7.12 Ceir y potensial i gynnal prosiect tebyg yn y dyfodol, oherwydd yr adroddwyd bod y broses o reoli a gweinyddu clystyrau yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Ni fu'r gwaith o weinyddu'r prosiect yn rhy feichus i glystyrau ac nid oedd wedi cymryd gormod o amser ar ôl iddynt sefydlu prosesau priodol. Mae tua un o bob tri o'r clystyrau naill ai'n parhau neu'n ystyried parhau elfennau o'u prosiect am y drydedd flwyddyn. Cynhaliodd y clystyrau sy'n weddill drafodaethau am y posibilrwydd o barhau ac adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol ddymuniad clir ymhlith yr holl ysgolion i barhau os oes modd. Adroddodd ysgolion clwstwr arweiniol siom mawr oherwydd y ffaith na allant barhau gyda'u prosiect. Roedd rhai rhwystrau allweddol a nodwyd gan ysgolion clwstwr fel rhai sy'n atal cynaliadwyedd yn cynnwys:

- Y costau uwch sy'n gysylltiedig â chyflogi athrawon ychwanegol parhaol mewn swydd gyflogedig o'u cymharu â'r costau ad hoc o recriwtio athrawon cyflenwi trwy gyfrwng asiantaethau cyflenwi allanol neu fanteisio ar drefniadau cyflenwi mewnol megis CALU;
- Y ffaith na ellir gwireddu'r costau a arbedir mewn hinsawdd o ddiffyg ariannol;
- Lefel y risg sy'n gysylltiedig gyda chyflogi athrawon ychwanegol parhaol o'i chymharu â manteisio ar wasanaeth cyflenwi mewnol neu allanol arall yn ôl yr angen.

7.13 Yn y tymor hir, mynegwyd rhywfaint o barodrwydd gan glystyrau i ailystyried cynnal prosiect cyflenwi tebyg yn eu clwstwr, ond dim ond dan amgylchiadau penodol. Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys: gostyngiad yn y diffyg ariannol y mae ysgolion yn ei wynebu ar hyn o bryd; newidiadau i gyflogau ac amodau athrawon er mwyn adlewyrchu rôl newydd yr athro ychwanegol; a chyfleoedd i sefydlu modelau

clwstwr cyflenwi y telir amdanynt sy'n debyg i gronfeydd cyflenwi sy'n bodoli eisoes ar lefel awdurdod lleol.

Hyrwyddo arfer gorau ym maes cydweithio a gweithio ar y cyd ar draws clystyrau ysgolion

- 7.14 Mae cydweithio mewn clystyrau wedi cael ei gryfhau a'i hyrwyddo ar draws clystyrau yn ystod y Prosiect. Bu ysgolion yn trafod rheolaeth a darpariaeth y Prosiect yn rheolaidd a bu'r cyfathrebu rhwng yr ysgolion dan sylw yn effeithiol. Rhannwyd a datblygwyd dulliau rheoli effeithiol yn ystod y Prosiect, a bu rhai clystyrau'n defnyddio calendr ar-lein i oruchwylio'r broses o neilltuo'r athrawon ychwanegol.
- 7.15 Bu'r arfer o hyrwyddo arfer gorau yn amlwg wrth i athrawon ychwanegol rannu dulliau addysgu a dysgu rhwng ysgolion clwstwr. Gwelwyd rhannu arferion megis dulliau gweithredu ar gyfer y cwricwlwm newydd, strategaethau rheoli ymddygiad, dulliau gweithredu er mwyn cynorthwyo dysgwyr neu syniadau penodol ynghylch darparu'r cwricwlwm yn ystod y Prosiect.
- 7.16 Yn ogystal, cwblhawyd prosiectau ysgolion clwstwr cydweithredol yn llwyddiannus yn ystod y Prosiect peilot, wrth i athrawon ychwanegol ddarparu gweithgareddau ar draws ysgolion clwstwr, neu gyflenwi yn ystod gwersi fel y bu modd i athrawon eraill gwblhau gweithgareddau traws-glwstwr, mynychu cyfarfodydd neu hyfforddiant er mwyn symud prosiect clwstwr yn ei flaen. Mae athrawon a ryddhawyd gan yr athrawon ychwanegol wedi cael yr amser i arwain datblygiadau ar lefel ysgol ac i fod yn gyfrifol amdanynt. Ceir cyswllt agos rhwng y dull gweithredu hwn a'r bwriad ar gyfer blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i reoli lles a llwyth gwaith y gweithlu ar gyfer y sector; oherwydd yr hwyluswyd cyfleoedd i athrawon gyflawni tasgau o'r fath yn ystod eu diwrnod gwaith arferol, o ganlyniad i'r gwasanaeth cyflenwi a ddarparwyd gan y Prosiect, yn hytrach na chwblhau tasgau o'r fath yn eu hamser eu hunain.
- 7.17 Bu cydweithio er mwyn cynorthwyo prosesau pontio effeithiol yn gadarnhaol i glystyrau hefyd, oherwydd y bu modd i athrawon ychwanegol a oedd yn gweithio ar draws gyfnodau feithrin perthnasoedd dros y tymor hwy gyda dysgwyr blwyddyn 6 ac roeddent yn 'wyneb cyfarwydd', gan gynnig cysondeb o ran y dull gweithredu

tuag at ymddygiad a dysgu er mwyn cynorthwyo pontio effeithiol i'r cyfnod uwchradd.

Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol

- 7.18 Er nad yw clystyrau wedi ymrwymo i'r cam o ariannu swyddi athrawon ychwanegol ar y cyd ym mwyafrif yr achosion, canfu'r gwerthusiad bod amrediad o effeithiau cadarnhaol wedi deillio o'r Prosiect, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn.
- 7.19 Gan fanteisio ar gasgliadau'r gwerthusiad, mae'n annhebygol y byddai unrhyw glystyrau ysgolion eraill yn sefydlu dulliau gweithredu ar y cyd er mwyn rhoi sylw i gyflenwi heb bod cyllid ar ffurf grant ar gael er mwyn cynnig cymhelliant i'r cam o weithio mewn clystyrau yn y maes hwn ac er mwyn lleihau'r risgiau dan sylw gymaint ag y bo modd.
- 7.20 Un cwestiwn pwysig yw a oes achos dros ystyried darparu prosiect tebyg yn y dyfodol, gan fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd o'r clystyrau yn y peilot. Yn gyntaf, gellid dadlau nas 'profwyd' y Prosiect yn llawn am sawl rheswm:
- Ym mhob achos, bu clystyrau'n gweithredu'r Prosiect am lai na dwy flynedd, ac roedd hi wedi cymryd ychydig amser i nifer setlo ar fodel darparu cytunedig;
 - Roedd y ffaith na fanteisiodd clystyrau yn llawn ar 100% y cymorth cyllid ar ffurf grant yn ystod blwyddyn 1 wedi golygu nad oedd yr ysgolion a fu'n cymryd rhan wedi llwyddo i sicrhau na gwerthfawrogi'r arbedion ariannol llawn;
 - Er gwaethaf y ffaith na chaiff ei gynnal yn ei ffurf bresennol, bydd y Prosiect yn parhau i ddarparu canlyniadau etifeddol i glystyrau ac ysgolion (gan ei fod wedi symud athrawon cyflenwi i swyddi addysgu parhaol; trwy wella ansawdd yr addysgu; trwy gyfrwng y prosesau sydd mewn grym i rannu gwybodaeth rhwng ysgolion; gweithgareddau pontio a dreialwyd trwy'r Prosiect ac y cawsant eu cynnal).

- 7.21 Felly, bydd effeithiau'r Prosiect yn parhau i gael eu gweld, ac ar yr adeg hon, nid oes modd crisialu'r rhain yn llawn. Bydd y gwaith gwerthuso dilynol i'w gwblhau yn 2020 yn ceisio nodi unrhyw effeithiau parhaus o'r fath ar ôl i gyfnod cyllido Llywodraeth Cymru ddod i ben.
- 7.22 Mae'r tîm gwerthuso o'r farn bod tystiolaeth ddigonol o ganlyniadau llwyddiannus o'r Prosiect i Lywodraeth Cymru ystyried cefnogi ail gam y Prosiect Clwstr Cyflenwi mewn Ysgolion. Ceir pwyntiau dysgu clir i'w hystyried wrth gynllunio a dylunio ail gam. Rhoddir crynodeb o'r rhain isod:
- Sicrhau amser cyflwyno digonol er mwyn caniatáu gweithgarwch i hysbysebu swyddi yn eang a recriwtio ymgeiswyr addas i ddechrau ar yr adeg sydd fwyaf priodol i bob ysgol. Ceir potensial i dargedu Athrawon Newydd Gymhwyso, o gofrestr ganolog; gan weithio gydag EWC a phrifysgolion.
 - Dylid ceisio sicrhau bod clystyrau'n weithredol o ddechrau blwyddyn academiaidd, ar ôl cael y cyfle ymlaen llaw i gytuno ar eu model darparu.
 - Dylid ystyried dewisiadau amgen er mwyn darparu cyllid ar ffurf grant mewn ffordd graddedig dros gyfnod o dair blynedd, gan ganiatáu i glystyrau ymwreiddio'r broses mewn ffordd effeithiol, a chyflwynir enghreifftiau yn Nhabl 7.1.

Tabl 7.1. Enghreifftiau o gymorth ymyrraeth graddedig posibl

	Cyfradd ymyrraeth: cymorth ar gyfer costau'r prosiect		
	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Model cyfredol	100 y cant	75 y cant	0 y cant
Dewis Amgen A	100 y cant	50 y cant	25 y cant
Dewis Amgen B	80 y cant	60 y cant	40 y cant

- iv. Parhau i fabwysiadu dull gweithredu hyblyg, gan annog clystyrau i lunio a gweithredu modelau gwaith sy'n gweithio yn y ffordd orau iddyn nhw (o ran niferoedd yr ysgolion, niferoedd yr athrawon ychwanegol, a sut y caiff yr athrawon ychwanegol eu neilltuo). Er hyn, gallai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod y cymorth yn glir ar gyfer gofynion monitro ac adrodd, ac y darperir templedi a strwythur pan fo hynny'n briodol.
- v. Gwahodd ceisiadau gan glystyrau i gymryd rhan yn y Prosiect, gan fynnu bod clystyrau'n nodi sut y byddai'r Prosiect yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo blaenoriaethau gwella ysgol ehangach; sut y darperir DPP i Athrawon Newydd Gymhwysu; sut y mae'r Prosiect yn cysylltu gyda gweithgareddau ehangach er mwyn cynorthwyo'r cwricwlwm newydd.
- vi. Dylid pennu amodau a fydd ynghlwm â'r cyllid, er mwyn sicrhau nas defnyddir y Prosiect er mwyn darparu gwasanaeth cyflenwi dros y tymor hir mewn un ysgol, gan sicrhau y rhoddir profiad o addysgu mewn amrediad o ysgolion a Chyfnodau Allweddol i athrawon ychwanegol pan fo modd.
- vii. Dylai clystyrau ymrwymo i wneud defnydd o sgiliau arbenigol athrawon ychwanegol (sy'n meddu ar arbenigedd pwnc neu sy'n arbenigo mewn darparu cymorth i grwpiau penodol o ddysgwyr megis cymorth ADY a ddefnyddir mewn ffordd effeithiol).
- viii. Mae'n bwysig bod clystyrau ac athrawon ychwanegol yn glir ynghylch y system rheolaeth llinell ac atebolrwydd, a phwy sy'n gyfrifol am drefnu cymorth a hyfforddiant ANG. Mae cwblhau cyfnod ymsefydlu ANG yn golygu bod yn rhaid i athrawon gynllunio dilyniant o wersi a gallai prosiectau tebyg yn y dyfodol sicrhau bod cyfleoedd i wneud hyn yn cael eu sefydlu mewn dosbarthiadau penodedig yn yr amserlen am rywfaint o'r amser.
- ix. Os darperir menter debyg yn y dyfodol ac os bydd yn parhau i dargedu Athrawon Newydd Gymhwysu, ceir y potensial i sefydlu a hwyluso rhwydwaith i ddarparu cymorth gan gymheiriaid ar gyfer y rhai sy'n cyflawni'r rôl.
- x. Ar gyfer prosiectau tebyg yn y dyfodol, gallai clystyrau gael enghreifftiau ac arweiniad ynghylch hysbysebu am swyddi, ac ynghylch neilltuo'r athro/athrawon ychwanegol yn eu clwstwr e.e. y gwahanol ddulliau sy'n

bosibl er mwyn amserlennu a sicrhau bod cydbwysedd rhwng anghenion y clwstwr a'r disgwyliad ynghylch datblygiad proffesiynol ar gyfer yr athro ychwanegol. Gallai'r bedair astudiaeth achos sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn gael eu hystyried gan ysgolion wrth iddynt archwilio'r posibiliadau ar gyfer modelau amgen yn y dyfodol a'u manteision bosibl.

Atodiad A: Offerynnau ymchwil

Canllaw holi ar gyfer cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid (Hydref 2018)

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i werthuso Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion (y Prosiect). Fel rhan o'r gwerthusiad, rydym yn cyfweld â rhanddeiliaid a fu'n rhan o'r Prosiect mewn rhyw ffordd.

Yn ystod y cyfweiliad, byddwn yn gofyn am eich barn ar: y cyd-destun polisi ar gyfer y Prosiect; nod, dyluniad a gweithrediad; traweffaith ar ddysgwyr, athrawon cyflenwi ac ysgolion hyd yma.

Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r gwerthusiad yn cael ei defnyddio i gefnogi dyluniad a gweithrediad y Prosiect yn y dyfodol.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil yn wirfoddol. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir gan rhanddeiliaid ar draws Cymru cael ei hadrodd yn anhysbys. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn ystod y gwerthusiad yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl, mewn cyhoeddiadau eraill, gan Lywodraeth Cymru.

Os ydych yn dymuno gweld yr hysbysiad preifatrwydd, mae copi wedi'i gylchredeg i chi ar ebost ac ar gael i chi gan yr ymchwilydd.

Nodyn i'r ymchwilydd: Gofyn i'r rhanddeiliad i gydsynio ar lafar i gymryd rhan yn yr ymchwil a nodi'r cydsyniad.

Nodyn i'r ymchwilydd: Bydd gwybodaeth rhanddeiliaid a'u hymgysylltiad gyda'r Prosiect yn amrywio, ac felly bydd angen holi'r cwestiynau isod sy'n berthnasol.

Cefndir

1. Rhowch drosolwg o'r cyfrifoldeb yn [sefydliad] os gwelwch yn dda.
2. Rhowch drosolwg o'ch ymwybyddiaeth / profiadau mewn perthynas â:
 - Y gweithlu addysg a/neu unrhyw faterion sy'n effeithio ar y broses o reoli athrawon cyflenwi.
 - Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion

Cyd-destun polisi a heriau

3. Beth yw'r ystyriaethau polisi cenedlaethol allweddol neu ddatblygiadau sy'n berthnasol i'r Prosiect? Pa ydy'r ystyriaethau neu ddatblygiadau hyn yn berthnasol i'r Prosiect?
 - Awgrymiadau: Strategaethau addysg, diwygio'r cwricwlwm, Safonau Proffesiynol, tâl ac amodau.
4. Beth yw'r datblygiadau allweddol neu heriau sy'n wynebu'r gweithlu addysg ar hyn o bryd mewn perthynas â: a) absenoldeb athrawon a digonolrwydd ac ansawdd staff cyflenwi, a b) cyfleoedd ar gyfer ANG?
5. Ydych chi'n ymwybyddol o unrhyw ymyraethau eraill posibl sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn? Beth yw'r ymyraethau?

- Awgrymiadau: Arferion da mewn llefydd eraill, modelau sector preifat, dewisiadau cyflenwi canolog.

Dyluniad ac amcanion y Prosiect

6. Beth ydych chi'n meddwl yw nodau ac amcanion allweddol y Prosiect?
 - Awgrymiadau: Gweithio traws-clwstwr, cefnogaeth ar gyfer athrawon cyflenwi a rheoli absenoldeb, datblygiad proffesiynol, canlyniadau i ddysgwyr, cost-effeithlonrwydd.
7. A yw'r Prosiect yn ymateb addas i argymhellion adroddiad y Tasglu Model Cyflenwi?
 - Awgrym: Pam neu pam ddim?
8. Beth yw eich barn ar y rhesymeg ar gyfer sut y cafodd y Prosiect ei gynllunio?
 - Awgrymiadau: Cefnogaeth ar gyfer athrawon cyflenwi, Ffocws ar ANG / athrawon sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar, cwmpas y peilot, mathau o brosiectau unigol a ariannwyd, natur arbrofol y Prosiect, amrywiaeth ar draws y modelau a'r prosesau a ddefnyddir.
9. I ba raddau y mae'r Prosiect yn cefnogi blaenoriaethau neu strategaethau lefel-ysgol?

Gweithredu'r Prosiect hyd yma

10. Pa mor effeithiol y mae'r broses o recriwtio athrawon ychwanegol ar draws y clystyrau wedi bod?
 - NEU: Mae rhai prosiectau wedi wynebu heriau wrth recriwtio athrawon ychwanegol. A ydych chi'n medru esbonio pam y gwelwyd hyn mewn rhai achosion?
 - Awgrym: effaith ar athrawon cyflenwi nad oeddent yn medru ceisio am swydd.
11. Pa mor effeithiol bu'r cydweithio rhwng ysgolion (ysgolion arweiniol ac ysgolion eraill) o fewn y clwstwr yn ystod y Prosiect?
 - Awgrymiadau: traweffaith ar athrawon cyflenwi cyfredol a gyflogir/perthynas waith o fewn y pwll o athrawon cyflenwi.
12. Beth sydd wedi gweithio'n dda a beth a fu'r heriau i ysgolion clwstwr wrth weithredu'r prosiect?
 - Awgrymiadau: Trefnu a rheoli Datblygiad Proffesiynol Parhaus (traweffaith ar athrawon cyflenwi nad ydynt yn rhan o'r prosiect)
13. Pa fudd neu werth ychwanegol a welwyd hyd yma – ar gyfer athrawon ychwanegol, yr ysgol, y clwstwr, dysgwyr?

Pwyntiau dysgu

14. A oes gennych unrhyw argymhellion ar gyfer polisiâu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol neu gefnogaeth ar gyfer athrawon cyflenwi a rheoli absenoldeb?
 - Awgrym: Polisi neu gefnogaeth wedi'u ffocysu ar ddull yn seiliedig ar glwstwr neu ddull amgen.

Canllaw holi ar gyfer cyfweiliadau gydag arweinyddion clwstwr (Hydref 2018)

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i werthuso Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion (y Prosiect). Fel rhan o'r gwerthusiad, rydym yn cyfweild âg arweinyddion clystyrau i gasglu barn ar y broses o sefydlu eich clwstwr, recriwtio, gweithredu a thraweffeithiau cynnar gweithredu'r model. Mae gennym ddiddodeb yn eich disgwyliadau ar gyfer y prosiect, gwersi hyd yma o ran dyluniad a gweithrediad – pwyntiau a fydd yn dylanwadu ar weithrediad y prosiect yn y dyfodol.

Rydym wedi adolygu data a ffurflenni monitro eich clwstwr a byddwn o bosibl yn cyfeirio at y rhain yn ystod y cyfweiliad.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil yn wirfoddol. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir gan randdeiliaid ar draws Cymru cael ei hadrodd yn anhysbys. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn ystod y gwerthusiad yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl, mewn cyhoeddiadau eraill, gan Lywodraeth Cymru.

Os ydych yn dymuno gweld yr hysbysiad preifatrwydd, mae copi wedi'i gylchredeg i chi ar ebost ac ar gael i chi gan yr ymchwilydd.

Nodyn i'r ymchwilydd: Gofyn i'r rhanddeiliad i gydsynio ar lafar i gymryd rhan yn yr ymchwil a nodi'r cydsyniad. Gofyn hefyd am gydsyniad i ail-gysylltu y flwyddyn nesaf i ddilyn i fyny ar gynnydd.

Cefndir

1. Rhowch drosolwg o sut y daethoch i fod yn rhan o'r prosiect a hynny fel arweinydd y clwstwr.
 - a. Pam penderfynoch chi i fod yn rhan o'r prosiect? Pa heriau yr oedd yr ysgol yn eu hwynebu mewn perthynas â rheoli athrawon cyflenwi?
 - b. A yw eich rôl fel arweinydd y clwstwr yn eglur? Esboniwch y rôl / eich tasgau.
2. Beth oedd trefniadau cyflenwi ar draws y clwstwr cyn i'r prosiect ddechrau?
 - a. Rhowch drosolwg o'r math o gyflenwi a ddefnyddiwyd yn yr ysgol e.e. defnydd CALU ac asiantaethau cyflenwi.
 - b. Pa heriau a brofwyd gan ysgolion eraill yn y clwstwr mewn perthynas a chyflenwi?
 - c. A oedd ysgolion y clwstwr yn cydweithio (ar gyflenwi a materion eraill) cyn y prosiect hwn? Esboniwch os gwelwch yn dda.

Dyluniad y prosiect

3. Sut y mae'r prosiect wedi'i gynllunio a ddylunio yn eich clwstwr chi?
 - a. *Awgrymiadau:* penderfyniad ar ba ysgol fyddai'n arwain y clwstwr, role arweinydd y clwstwr, ffocws y clwstwr (ADY/decision on which school would be cluster lead, role of cluster lead, focus for cluster (ALN/STEM/cyfrwng Cymraeg).
 - b. Sut y mae'r model yn cefnogi blaenoriaethau ysgolion?
 - c. A wnaethoch chi dderbyn canllawiau/cefnogaeth gan eich consortiwm/ALI?
4. Pa mor effeithiol oedd cyfathrebu a chydweithio rhwng ysgolion y clwstwr yn ystod y cam cynllunio?
 - *Awgrymiadau:* heriau wrth gytuno ar ffocws gwaith y clwstwr / cytuno ar arweinydd y clwstwr?

5. Pa mor hawdd yw hi i gwblhau ffurflenni hawlio?

- *Awgrymiadau:* a yw'r data priodol yn cael ei gasglu? Faint o amser a gymerir i gwblhau'r ffurflenni a phwy sy'n eu cwblhau (beth yw rôl y person sy'n eu cwblhau?) A yw hyn yn cymryd mwy/llai/yr un faint o amser a'r hyn a oedd angen i drefnu cyflenwi cyn y model hwn?

Gweithredu'r prosiect hyd yma

6. Sut wnaethoch chi recriwtio'ch athrawon cyflenwi?

- Awgrymiadau:* hysbysebu, defnyddio athrawon cyflenwi cyfredol, cefnogaeth gan yr awdurdod lleol/consortium?
- Pa mor effeithiol oedd eich proses recriwtio? Unrhyw heriau?
- Os yn bosib, rhwch drosolwg o'r amseru / nifer y ceisiadau/ ansawdd yr ymgeiswyr.

7. Sut y mae defnydd athrawon ychwanegol yn cael ei reoli yn eich clwstwr?

- Awgrymiadau:* sut y caiff eu hamser ei ddyrannu ar draws ysgolion y clwstwr?
- Sut ydych chi, fel ysgol arweiniol, yn gweinyddu/trefnu'r defnydd amser/dyraniad?
- Pa mor effeithiol y mae'r broses o ddyrannu adnoddau/amser athrawon ychwanegol wedi bod o safbwynt bodloni gofynion cyflenwi?

8. Pa mor effeithiol bu'r cydweithio rhwng ysgolion clwstwr ers i'r athrawon ychwanegol gael eu cyflogi?

- Awgrymiadau:* Beth sydd wedi gweithio'n dda? Unrhyw heriau?
- Ydy holl ysgolion y clwstwr yn rhan o'r broses o reoli athrawon ychwanegol? Archwilio rôl yr ysgol arweiniol o gymharu ag ysgolion eraill.
- A yw'r clwstwr wedi gweld angen am unrhyw gefnogaeth ychwanegol gan y consortium/awdurdod lleol i weithredu'r prosiect?

9. Esboniwch y broses a ddilynwyd i benderfynu pa gefnogaeth datblygu proffesiynol fyddai'n cael ei darparu i'r athrawon ychwanegol.

- Awgrymiadau:* Trefniadau cyfredol / unrhyw elfennau newydd?
- A gafwyd unrhyw gefnogaeth ychwanegol gan y consortium / awdurdod lleol i gynllunio darpariaeth datblygu proffesiynol?
- Rhowch drosolwg o'r ddarpariaeth a gynigir i'r athrawon ychwanegol.

10. Oes unrhyw heriau / rhwystrau i gynnydd y model?

- Awgrymiadau:* cyfraddau uchel o absenoldeb ar draws y clwstwr, ansawdd yr athrawon ychwanegol.
- Sut y mae'r heriau hyn wedi'u goresgyn / sut y gellir goresgyn heriau o'r fath?

Canlyniadau lefel-prosiect

11. Beth yw'r buddion allweddol neu werth ychwanegol mae eich clwstwr yn gobeithio eu gweld dro ganlyniad i'r prosiect?

- Awgrymiadau:* i athrawon cyflenwi? I ddysgwyr? Staff ehangach? I'r ysgol?
- Arbedion ariannol? Cymharu gwahanol ddulliau o gyflenwi cyn ac ar ôl y prosiect. A yw'r ysgol wedi elwa o unrhyw arbedion e.e. adnoddau ychwanegol ar gael ar gyfer blaenoriaethau eraill?

12. *[Efallai yn llai perthnasol i ysgolion gydag athrawon wedi'u recriwtio'n ddiweddar]* Pa fuddion ehangach neu werth ychwanegol a welwyd hyd yma – ar draws y clwstwr ac yn eich ysgol chi?
- a. *Awgrymiadau:* i athrawon cyflenwi? Dysgwyr? Staff addysgu eraill?
 - b. Arbedion ariannol? Cymharu defnydd athrawon cyflenwi drwy ddulliau eraill a'r sefyllfa nawr.
13. A ydych yn meddwl y gallai'r model fod yn hunangynhaliol yn yr hirdymor?
- a. *Awgrymiadau:* Beth y mae'r clwstwr yn ei wneud i sicrhau hyn? Sut y gellir cyflawni hyn?

Pwyntiau dysgu

14. A oes gennych unrhyw argymhellion ar gyfer dyluniad a gweithrediad y prosiect yn y dyfodol neu unrhyw sylwadau ar ddull amgen o weithredu'r model?
- *Awgrym:* Newid i nodau neu amcanion y prosiect / lefel y cyllid sydd ei angen i gefnogi'r model?
15. Beth yw'r pwyntiau dysgu mwyaf pwysig hyd yma mewn perthynas a gweithrediad y prosiect?
- *Awgrymiadau:* Recriwtio amserol / ansawdd athrawon / cydweithio ar draws y clwstwr / cefnogaeth gan yr awdurdod lleol / eglurder rôl arweinydd y clwstwr?

Canllaw holi ar gyfer cyfweiliadau athrawon ychwanegol (Gwanwyn 2019)

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i werthuso Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion (y Prosiect). Fel rhan o'r gwerthusiad, rydym yn cyfweld âg athrawon ychwanegol i gasglu barn ar y broses recriwtio a sut eich cyflogir ar draws clwstwr. Mae gennym ddiddodeb yn eich disgwyliadau ar gyfer y prosiect, gwersi hyd yma o ran datblygiad proffesiynol a gweithrediad y prosiect: bydd hyn yn dylanwadu ar weithrediad y prosiect yn y dyfodol.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil yn wirfoddol. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir gan randdeiliaid ar draws Cymru cael ei hadrodd yn anhysbys. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn ystod y gwerthusiad yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl, mewn cyhoeddiadau eraill, gan Lywodraeth Cymru.

Os ydych yn dymuno gweld yr hysbysiad preifatrwydd, mae copi wedi'i gylchredeg i chi ar ebost ac ar gael i chi gan yr ymchwilydd.

Nodyn i'r ymchwilydd: Gofyn i'r rhanddeiliad i gydsynio ar lafar i gymryd rhan yn yr ymchwil a nodi'r cydsyniad. Gofyn hefyd am gydsyniad i ail-gysylltu y flwyddyn nesaf i ddilyn i fyny ar gynnydd.

Cefndir

1. Rhowch drosolwg o sut y cawsoch eich recriwtio i'r Prosiect model cyflenwi.
 - A oedd y broses recriwtio/dewis yn foddhaol yn eich barn chi? *[Nodyn i'r ymchwilydd: mae'n bosibl y bydd gan rai profiad o geisio am swyddi addysgu ac yn medru cymharu]*
 - Rhowch drosolwg o'ch profiad addysgu/cyflenwi cyn y prosiect (wedi gweithio gydag ysgolion y clwstwr yn y gorffennol? Ai hon yw'ch blwyddyn sefydlu ANG? Profiadau DPP/profiadau gydag asiantaethau cyflenwi)
2. Beth yw eich dealltwriaeth chi o nodau'r Prosiect?
 - A gafodd nodau'r Prosiect eu hesbonio i chi yn ystod y broses gais (yn yr hysbyseb)?
3. A oedd unrhyw elfennau o'r rôl hon a oedd yn apelio atoch yn benodol? Os felly, beth oedd y rhain? Motivation for applying?
 - Pa mor bwysig oedd elfen datblygiad proffesiynol y prosiect (cyfle i gwblhau blwyddyn sefydlu ANG) i chi yn ystod y cam recriwtio?
 - Pa mor bwysig oedd cysondeb cyflogaeth?

Dyluniad y Prosiect

4. Beth yw eich rôl ar draws y clwstwr ac ym mhob ysgol?
 - Awgrymiadau: e.e. gorchudd salwch yn unig / gorchudd DPP wedi'i gynllunio / ffocws y gorchudd-e.e. ALN / STEM / Cymraeg Canolig / arall - nodwch.
 - Mae dyraniad penodol o ddiwrnodau ar gyfer pob ysgol yn aros yr un peth / yn newid? Casglu manylion patrymau gweithio / dyraniad i wahanol ysgolion a barn ar y model a ddefnyddir. (blynyddoedd / pynciau / math o orchudd / hyd yr hysbysiad ymlaen llaw a dderbynnir i'w ddyrannu) Sut ydych chi'n cael eich rheoli? Un rheolwr

llinell / mentor cyffredinol yn yr ysgol arweiniol a / neu reolwyr ysgol unigol - barn ar hyn a sut mae'ch dyraniad yn cael ei gyfleu (calendr wythnosol / dyddiol / ar-lein)?

5. Beth mae disgwyl i chi ei wneud os nad oes angen i chi gyflenwi gwers?
- Awgrymiadau: e.e. cefnogaeth dosbarth / cyflwyno ymyrraeth / gwaith penodol ar flaenoriaeth ysgol benodol.
 - A oedd yr elfen hon yn glir o'r dechrau neu a yw wedi newid dros amser?

Gweithrediad y Prosiect hyd yma

6. Pa mor effeithiol yw cyfathrebu a chydweithio rhwng yr ysgolion clwstwr?
- Awgrymiadau: heriau / cytuno ar flaenoriaethau / dyraniad. Unrhyw effaith ar eich diwrnod / wythnos waith? (egllurder rôl / swydd / amser i symud rhwng ysgolion / cyfnodau)
 - Beth sy'n gweithio'n dda?
7. A yw'ch clwstwr yn defnyddio'ch amser a'ch sgiliau mor effeithiol ag y gallai?
- *Awgrymiadau:* gorchudd wedi'i ddyrannu sy'n cyfateb i'ch cryfderau, tasgau pan nad oes angen yswiriant.
8. **[Blwyddyn sefydlu ANG yn unig]** Esboniwch sut y gwnaethoch chi gwblhau'r cynllunio / paratoi / gwerthuso gwersi gofynnol i ennill statws ANG
- Awgrymiadau: e.e. dyrannodd yr ysgol yswiriant CPA penodol yr oeddech wedi'i gynllunio / yswiriant salwch tymor hir
 - A ydych erioed wedi derbyn amser ANG a CPA (sy'n cyfateb i wythnos 1 diwrnod) yn ôl yr angen yn ystod blwyddyn sefydlu ANG?
9. A ydych chi'n mewnbynnu unrhyw ddata monitro ar gyfer y prosiect, e.e. oriau ym mhob ysgol a rôl? Pa mor hawdd yw hyn i chi ei wneud?
- Awgrym: Faint o amser mae hyn yn ei gymryd?
10. A allwch chi amlinellu'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol a gynlluniwyd / a dderbyniwyd eisoes?
- Awgrymiadau: addysgeg / dulliau addysgu penodol, arweinyddiaeth / rheolaeth. Rôl eich mentor, cefnogaeth gan gyd-athrawon ychwanegol, ALI, consortia.
 - [Blwyddyn sefydlu ANG] Sut y dyrannwyd eich mentoriaid (allanol a mewnol)?
 - Ydych chi wedi gallu mynychu'r holl hyfforddiant roeddech chi eisio ei wneud?
 - [Os yn berthnasol] sut mae'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol yn wahanol i ddatblygiad proffesiynol a ddarparwyd mewn rolau cyflenwi blaenorol?
11. Beth yw eich barn ar ansawdd y gefnogaeth hyfforddiant (ac yn ystod blwyddyn sefydlu ANG yn arbennig) a gafwyd gan fentoriaid?
- Pa mor effeithiol y mae'r DPP rydych wedi'i dderbyn wrth ddiwallu'ch anghenion a'ch disgwyliadau? Esboniwch / awgrymwch welliannau.
 - Pa mor effeithiol fu'r gefnogaeth gan eich mentor / mentor? Esboniwch os gwelwch yn dda.

12. A ydych wedi dod ar draws unrhyw rwystrau / heriau wrth weithio yn y rôl hon?

- Awgrymiadau: cyfraddau absenoldeb uchel parhaus ar draws y clwstwr, galw mawr arnoch chi ar draws yr ysgolion, disgwyliadau i wneud gwaith cynllunio / marcio helaeth, rheoli ystafell ddosbarth / materion ymddygiad.
- [Os yw'n berthnasol] A yw'r rhwystrau / heriau hyn yn debyg i'r rhai a brofwyd mewn rolau cyflenwi blaenorol, neu a ydynt yn wahanol?
- [blwyddyn sefydlu ANG yn unig] Unrhyw rwystrau / heriau i lwyddiant? (llwyth gwaith, diffyg cysondeb mewn dosbarthiadau i ganiatáu ar gyfer elfen baratoi / gwerthuso)

Canlyniadau ar lefel prosiect

13. A osodwyd unrhyw amcanion perfformiad penodol i chi? Os felly, beth yw'r rhain?

- Awgrymiadau: Amcanion yn ymwneud ag addysgu ystafell ddosbarth neu flaenoriaethau ysgol gyfan?
- Amcanion yn benodol mewn perthynas â'ch blwyddyn sefydlu ANG

14. Beth yw'r buddion allweddol rydych chi'n gobeithio eu cyflawni / rydych chi wedi'u cyflawni trwy gael eich cyflogi fel athro ychwanegol?

- I chi? *Awgrymiadau:* tâl ac amodau, datblygiad proffesiynol, cyfle cyflogaeth barhaol.
- Ar gyfer Dysgwyr? Ar gyfer staff addysgu eraill? Unrhyw fuddion ehangach?
- [Os yw'n berthnasol] Sut mae'r buddion sydd ar gael yn y rôl hon yn cymharu â buddion gweithio mewn rôl gyflenwi?

15. [Gall fod yn llai perthnasol i athrawon sydd newydd eu recriwtio] Pa fuddion ydych chi wedi'u gweld hyd yn hyn o gael eich cyflogi fel athro ychwanegol?

- I chi? Ar gyfer Dysgwyr? Ar gyfer staff addysgu eraill? Unrhyw fuddion ehangach? Yn dibynnu ar brofiad blaenorol efallai y gallant gymharu â gweithio cyflenwad blaenorol.

16. Ydych chi'n meddwl y gall y model fod yn hunangynhaliol yn y tymor hir?

- Awgrymiadau: gweithio clwstwr / nifer yr ysgolion dan sylw / dyrannu amserlen / DPP / cadw athro ychwanegol?

Pwyntiau dysgu

17. A oes gennych unrhyw argymhellion ynghylch dylunio a chyflawni'r Prosiect yn y dyfodol neu unrhyw farn ar fodel cyflenwi cyflenwad amgen?

- Awgrymiadau: beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth sydd wedi bod yn fwy heriol? Beth fydddech chi'n ei newid?

18. Beth fu'r pwyntiau dysgu pwysicaf hyd yn hyn o ran y Prosiect?

- Awgrymiadau: Recriwtio / cydweithredu amserol ar draws ysgolion / cefnogaeth mentor / rheoli / dyrannu llinell yn effeithiol ar draws ysgolion?

19. Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac ar ôl cwblhau eich rôl fel athro ychwanegol?

Diolch ac atgoffa am ail-gysylltu yn ystod cam 2.

Arolwg arlein ar gyfer ysgolion clwstwr (ag eithrio ysgolion arweiniol ym mhob clwstwr) (Gwanwyn 2019)

Model Clwstwr Cyflenwi Athrawon – Arolwg Ysgol

Cyflwyniad

Comisiynwyd Arad Research gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Prosiect Model Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn casglu tystiolaeth gan ysgolion clwstwr sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect.

Mae cymryd rhan yn y gwerthusiad yn wirfoddol a gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm dros wneud hynny. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei hadrodd yn ddienw. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill, gan Arad Research a Llywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth am eich data a'ch hawliau ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd.

Cliciwch yma i ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd. Os ydych chi'n fodlon rhoi eich caniatâd, parhewch â'r arolwg trwy glicio nesaf. Os ydych am gwblhau'r arolwg yn Saesneg, cliciwch yma.

